

y tincer

PRIS 75c | Rhif 359 | MAI 2013

Mwy o Eisteddfod Penrhyn-coch

t10



Cymdeithas Trefeurig 60+

t18



Twrnament Pêl-droed

t5



Eisteddfod Penrhyn-Coch 2013



Enillwyr nos Wener - Cerys Hurford (2il) a Gwion Wilson (1af) - unawd Bl 1 a 2



Eilir Pryse, Aberystwyth, yn ennill Tlws yr Ifanc (Cerddorol) am yr ail waith



John Meurig Edwards, Aberhonddu yn ennill y gadair am yr ail flwyddyn yn olynol - a hynny mewn cystadleuaeth gref - roedd 27 wedi cystadlu.

Luniau: Arvid Parry-Jones



Disgyblion Cylch Methrin Trefeurig yn cystadlu ar yr unawd



Enillwyr nos Wener - Zoe Evans (1af), Tomos Wilson (2il), Steffan Huxtable (3ydd) - unawd Bl 5 a 6

y tincer

Sefydlwyd Medi 1977
Aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion

ISSN 0963-925X

GOLYGYDD – Ceris Gruffudd
Rhos Helyg, 23 Maesyrefail, Penrhyn-coch
☎ 828017 | Rhoshelyg@btinternet.com

TEIPYDD – Wendy Rattray

CYSODYDD – Elgan Griffiths ☎ 832980

CADEIRYDD – Elin Hefin
Ynyswen, Stryd Fawr, Y Borth ☎ 871334

IS-GADEIRYDD A THREFNYDD CYFEILLION
Y TINCER – Bethan Bebb
Penpistyll, Cwmbrwyno, Goginan ☎ 880228

YSGRIFENNYDD – Anwen Pierce
46 Bryncastell, Bow Street ☎ 828337

TRYSORYDD – Hedydd Cunningham
Tyddyn-Pen-y-Gaer, Llandre, Aberystwyth
☎ 820652 hedyddcunningham@live.co.uk

HYSBYSEBION – Rhodri Morgan
Maes Mieri, Llandre, ☎ 828 729
rhodrimoc@yahoo.co.uk

LLUNIAU – Peter Henley
Dôleglur, Bow Street ☎ 828173

TASG Y TINCER – Anwen Pierce

TREFNYDD GWERTHIANT – Bryn Roberts
4 Brynmeillion, Bow Street ☎ 828136

ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL
Mrs Beti Daniel
Glyn Rheidol ☎ 880 691

Y BORTH – Elin Hefin
Ynyswen, Stryd Fawr
elin.john@yahoo.co.uk

BOW STREET
Mrs Mair Lewis, 40 Maes Ceiro ☎ 828 102
Lynn Phillips, 1 Cae'r Odyn ☎ 820 908
Anwen Pierce, 46 Bryncastell ☎ 828 337
Maria Owen, Swyddfa'r Post ☎ 828 201

CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN
Mrs Aeronwy Lewis
Rheidol Banc, Blaengeuffordd ☎ 880 645

CAPEL MADOG, CEFN-LLWYD A CAPEL DEWI
Eirian Hughes, Lluest Fach ☎ 880 335
Elwyna Davies, Tyncwm ☎ 880 275
Dai Evans, Fferm Fronfraith, Comins-coch
☎ 623 660

DÔL-Y-BONT
Mrs Llinos Evans - Dôlwerdd ☎ 871 615

DOLAU
Mrs Margaret Rees - Seintwar ☎ 828 309

GOGINAN
Mrs Bethan Bebb
Penpistyll, Cwmbrwyno ☎ 880 228

LLANDRE
Mrs Mair England
Pantyglyn, Llandre ☎ 828693

PENRHYN-COCH
Mairwen Jones - 7 Tan-y-berth ☎ 820642

TREFEURIG
Mrs Edwina Davies
Darren Villa, Pen-bont Rhydybeddau ☎ 828 296

dyddiadur

Rhifyn Mehefin

Deunydd i law: Mehefin 7 | Dyddiad cyhoeddi: Mehefin 20

MAI 12-18 Wythnos Cymorth Cristnogol

MAI 18 Dydd Sadwrn Arddangosfa
Clustnodau Ruth Jên Evans yn Oriol y Bont, Aberystwyth rhwng 13.00-14.30 ac yna yn Arddangosfa'r Uwchraddedigion 2013 rhwng 3 a 6 yn Yr Ysgol Gelf, Buarth Mawr, Aberystwyth, SY23 1NG

MAI 21-22 Dyddiau Mawrth a Mercher Arad
Goch yn cyflwyno Cerdyn post o Wlad y Rwla yn Theatr, Canolfan y Celfyddydau am 10 ac 1.00 Addas i blant 4-8 oed

MAI 24 Nos Wener Noson goffi Henoed
Llandre a Bow Street yn Neuadd Rhydpennau am 7.00

MAI 25 Nos Sadwrn Barbeciw yn Neuadd yr Eglwys, Capel Bangor rhwng 6.00 - 8.30. Croeso cynnes i bawb.

MEHEFIN 8 Dydd Sadwrn Sioe Aberystwyth a Gogledd Ceredigion

MEHEFIN 15 Dydd Sadwrn Taith Cymdeithas y Penrhyn i Sir y Fflint yng nghwmni Gron Ellis. Am fwy o fanylion cysyllter â Ceris Gruffudd (01970 828 017)

MEHEFIN 15 Dydd Sadwrn Rali CFFI Ceredigion ym Merthlwyd, Tal-y-bont

MEHEFIN 15 Pnawn Sadwrn Parti yn y Parc ym Mhenrhyn-coch. Diwrnod i'r teulu i gefnogi y parc o 4.00 ymlaen. Trefnir gan PATRASA

MEHEFIN 19 Dydd Mercher Taith flynyddol Cymdeithas Gymraeg y Borth - enwau i'r ysgrifennydd Llinos Evans

MEHEFIN 29 Noson o Adloniant yng Ngwesty Llety Parc, Aberystwyth - gyda Wil Tân, Clive Edwards a Meibion y Mynydd am 8.00. Tocynnau £10 ar gael oddi wrth y gwesty. Holl elw'r noson tuag at Sefydliad Prydeinig y Galon.

MEDI 13-15 Dyddiau Gwener i Sul.
Penwythnos ddathlu 150 mlynedd Ysgol Gynradd Penrhyn-coch

HYDREF 11 Nos Wener Eisteddfod Papurau Bro Ceredigion yn Neuadd Felin-fach

Telerau hysbysebu

Tudalen lawn (35 x 22 cm) £100
Hanner tudalen £60
Chwarter tudalen £30
neu hysbyseb bach ca. 5 x 8 cm £6 y rhifyn - £40 y flwyddyn (10 rhifyn - misol o Fedi i Fehefin); mwy na 6 mis + £4 y mis, llai na 6 mis - £6 y mis. Cysyllter â Rhodri Morgan os am hysbysebu.

Y Tincer ar dâp

Mae modd cael y Tincer ar gaset ar gyfer y rhai sydd â'r golwg yn pallu. Cysylltwch â Rhiaian Lewis, Glynllifon, 17 Heol Alun, Aberystwyth, SY23 3BB (☎ 612 984)

 **Ymunwch â Grŵp Facebook Ytincer**

Camera'r Tincer

Cofiwch am gamera digidol y Tincer – mae ar gael i unrhyw un yn yr ardal fydd am ei fenthg i dynnu llun ar gyfer y papur o gyngerdd, cinio neu ddigwyddiad a gynhelir o fewn ein dalgylch. Fe'i cedwir gan Mrs Mair Lewis, 40 Maes Ceiro, Bow Street (☎ 828102). Os byddwch am gael llun eich noson goffi yn Y Tincer defnyddiwch y camera.

Cyhoeddir y Tincer yn fisol o Fedi i Mehefin gan Bwyllgor y Tincer. Argreffir gan y Lolfa, Tal-y-bont. Nid yw'r Pwyllgor o angenrheidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn a fynegir yn y papur hwn. Dylid cyfeirio unrhyw newyddion i'ch gohebydd lleol neu i'r Golygydd, ac unrhyw lythyr neu ddatganiad i'r wasg i'r Golygydd.

Y mae pawb sy'n ymwneud â'r Tincer yn gwneud hynny'n wirfoddol ac yn ddi-dâl er budd y gymuned leol. Nhw fel unigolion sy'n derbyn pob risg a chyfrifoldeb (cyfreithiol ac fel arall) gan dderbyn mai ar y telerau hynny y maent yn cyfrannu at y papur a'i ddosbarthiad.

CYFEILLION Y TINCER

Dyma fanylion enillwyr Cyfeillion y Tincer mis Ebrill 2013:

£25 (Rhif 18) W H Howells,
Rhyd-y-gof, Penrhyn-coch.

£15 (Rhif 237) W H Howells,
Rhyd-y-gof, Penrhyn-coch.

£10 (Rhif 15) Gwyn Jones, Glynteg,
Bow Street.

Fe dynnwyd y rhifau buddugol gan aelodau o'r tîm dosbarthu yn festri Bethlehem, Llandre prawn Mercher Ebrill 17.

Cysylltwch â'r Trefnydd, Bethan Bebb, Penpistyll, Cwmbrwyno. Goginan, os am fod yn aelod.

Am restr o Gyfeillion y Tincer gweler <http://www.trefeurig.org/uploads/cyfeilliontincer2009.pdf>

Enillydd

Llongyfarchiadau i Miss Mary Jones, Tŷ Capel Pantglas, Llanilar - dyma'r ateb cyntaf a gafwyd yng nghystadleuaeth ennill y copi o gyfrol Angharad Edwards *Deffro* (Gomer). Yr ateb oedd - Gwen Harding yw prif gymeriad y nofel.

Casgliadau gwastraff dros Wyl Banc y Sulgwyn (27ain o Fai)

Casgliadau fel arfer yn ystod yr wythnos yma.

Cofiwch fod modd i chi - ers 1 Ebrill eleni-ailgylchu Tetra Paks (cartonau cwyrog) a pholystyren. Rhaid iddynt fod yn lân ac yn wag o bob hylifau fel nad ydynt yn baeddu eraill. Gellir eu rhoi gyda deunydd arall yn y bagiau ailgylchu clir

Eglwys St. Pedr, Elerch

Cynhelir wythfed noson noson flynyddol o Gaws, Gwin a Chân yn Eglwys Elerch ar Nos Wener, 28 Mehefin, i ddechrau am, 7-00pm. Gwahoddwyd Côr Gorau Glas o ardal Powys i'n diddanu eleni, ynghyd ag artisitaid eraill. Y Llywydd fydd Mrs Carys Briddon, un o blant y pentref. Mae tocynnau ar werth gan swyddogion yr Eglwys am £7-00 (Plant: £2.00), neu, os dymunir, gellir talu wrth y fynedfa ar y noson.

Ar hyn o bryd mae gwaith atgyweirio arbenigol yn mynd yn ei flaen ar rai o ffenestri'r Eglwys, a bydd cyfle i edmygu'r ffenestri newydd adeg y cyngerdd.



20 MLYNEDD YN ÔL

Grŵp trafod llyfrau'r Borth

Yr awdur William Owen gyda grŵp trafod llyfrau'r Borth ar aelwyd Mabel a John Rees, Talar Deg, Dolau

Ar Ebrill 6ed cafodd y grŵp trafod llyfrau gyfle i gwrdd â William Owen, sef awdur y buont yn trafod ei lyfr yn un o'u sesiynau yn ystod y gaeaf. John a Mabel Rees, Dolau, oedd yn croesawu'r grŵp i'w cartref y tro hwn.

Yn ei ddarlith dan y teitl 'Tawelu'r Ysbrydion' trafododd William Owen yr ysgrif bortread fel ffurf lenyddol a dansoddodd yr ysfa sydd ynom i edrych yn ôl ar oes a fu, ysfa sy'n gyffredin i nifer o ddiwylliannau. Dadleuodd mai nid sentimentaleiddwch oedd ysgrifennu am blentyndod ond rhannu profiadau, profiadau personol ar y naill llaw ond profiadau dyniolaeth hefyd. Yna, eglurodd ei gymhellion dros ysgrifennu Y Llanc Nad Yw Mwy sy'n un o dair cyfrol am ardal ei fagwraeth ym Môn.

Yn dilyn ei ddarlith cafodd aelodau'r grŵp gyfle i'w holi a chafodd pob aelod gopi rhodd wedi ei llofnodi o'i gyfrol gyntaf. Paratowyd bwffet blasus ac anrhydeddus gan John a Mabel Rees gyda chymorth Mrs Tegwen Pryse, gwledd oedd yn goron ar noson gofiadwy. Edrycha'r grŵp ymlaen yn awr at yr hydref pan fyddant yn trafod chwe llyfr Cymraeg arall. *O'r Tincer (Mai 1993)*

Trist oedd clywed am farwolaeth Mabel Rees yn ddiweddar - gweler t.19

**GWASANAETH
GARDDIO
ROBERT
GRIFFITHS**



Am bob math o waith
garddio ffoniwch
(01970) 820924

**GWASANAETH
CYFIEITHU**

Linda Griffiths

Maesmeurig
Cwmsymlog
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3EZ



01970 828454
lindagriffiths01@btinternet.com

**Clwb Cymdeithasol
Pêl-droed
Penrhyn-coch**

**CINIO DYDD SUL
PRYDAU BAR
PARTÏON
BWYDLLEN BWYTY
ADLONANT**



**AR AGOR O 5:30 P.M.
NOSWEITHIAU IAU A GWENER
AM BRYDIAU TEULUOL**



ytincer@googlemail.com

LLANDRE

Eglwys Llanfihangel Genau'r-glyn
Gwasanaeth o Ddiolchgarwch

Ar Ebrill 16eg, cynhaliwyd gwasanaeth o ddiolchgarwch yn Eglwys Llanfihangel Genau'r-glyn a dathlu cwblhau y newidiadau helaeth o fewn adain orllewinol yr adeilad. Erbyn hyn mae ystafell gyfarfod, cegin a thoiledau wedi eu hychwanegu o fewn yr Eglwys. Gwnaed anerchiad pwrpasol i gynulleidfa ac aelodau clerigol lleol gan Esgob Wyn ac fe gafwyd adroddiadau “The Vale of Llandre” ysgrifennwyd gan y Parchg Isaac Williams gan Ellen Jones ac Eisteddfod yn fy Stafell gan Anwyn Jenkins.

‘Roedd y gwaith adeiladu ar newidiadau

a gwblhawyd o fewn byr amser wedi creu argraff ac wedi plesio pawb oedd yn bresennol a daeth yr oedfa i ben gyda phaned a gwledd a baratowyd yn y gegin newydd gan ferched yr Eglwys.

Diolchodd y Parchg Peter Jones i bawb oedd wedi bod ynghlwm â'r fenter, a chan fod Llanfihangel yn un o'r unarddeg o addoldai o fewn gogledd Ceredigion sydd yn y cynllun Llwybr Treftadaeth arfaethedig bwriedir cynnal gwasanaeth pellach yn yr Hydref.

Llenor ifanc

Llongyfarchiadau i Dylan Edwards am ennill Tlws Llenyddiaeth i rai dan 19 oed

yn Eisteddfod Gadeiriol Talgarreg dydd Sadwrn Mai 4.

Roedd 7 ymgeisydd, pob un wedi ysgrifennu dau ddarn o lenyddiaeth. Ysgrifennodd Dylan stori fer o'r enw ‘Hirnos’ a cherdd yn dwyn y teitl ‘Y Sgrin’. Dywedodd y beirniad - Karina Wyn Dafis, Llanbryn-mair - fod Dylan yn amlwg wedi cael ei ddylanwadu gan y byd ffilmiau yn y ddau ddarn, a'i fod yn ysgrifennu fel cyfarwyddwr ffilm! Enillodd hefyd ddechrau Mai y wobr gyntaf yng nghystadlaethau ar gyfer Ysgolion Uwchradd yn Eisteddfod Teulu James Pantyfedwen Pontrhydfendigaid. Yn ogystal cafodd Dylan wybod dros y Sul diwethaf iddo gael dau zil yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd - zil am Ryddiaith Bl 12/13 ac zil am Farddoniaeth Bl. 12/13. Llongyfarchiadau mawr iddo!

Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â Gwenda James, Lluarth, Taigwynion a'r teulu, ar farwolaeth cyfnither i Gwenda yn Nant-y-moel.

Pen-blwydd arbennig

Pen-blwydd hapus i Rhian Benjamin, Taigwynion, ar ddathlu pen blwydd arbennig yn ddiweddar.

Dyweddiad

Llongyfarchiadau i Lisa Raw Rees, Tyn Parc a Colin Patterson ar eu dyweddiad ar nos Galan.

Marwolaeth

Trist yw cofnodi marwolaeth Camwy Williams, Llwyn, ar Ebrill 23. Estynnwn ein cydymdeimlad â Carwyn a Jemma a'r teulu oll. Cynhaliwyd yr angladd yng Nghapel Noddfa ar ddydd Mawrth Ebrill 30.

Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â Dylan a Dafydd Raw-Rees ar farwolaeth eu brawd Hywel yn Aberaeron ddiwedd yr wythnos ddiwethaf.. Roedd Hywel yn syrfêwr siartredig fu'n reolwr gyda'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn Llannerchaeron cyn dod yn bennaeth stadau gyda Chyngor Sir Ceredigion.



Esgob Tyddewi Y Parchedig Wyn Evans



Gwesty'r Llew Du
Black Lion Hotel
Talybont, Ceredigion, SY24 5ER

Bwyty a Bar Newydd!

Cinio 12 - 2.30
Dau gwrs am £10 y person
Mercher i Sadwrn

Swper Nos 6 - 9
Mawrth i Sadwrn

Cinio Sul 12 - 3
Prydau o £9

Galwch heibio!

01970 832 555
www.gwestyllewdu.com

Nos Wener 4.30-9.00
Cychwyn 26 Ebrill 2013

Gwersi Gitâr

Tiwtor: Gerald Morgan, Tregaron

geraldmorganguitar@hotmail.co.uk
www.geraldmorganguitar.co.uk

Gitâr i'r Cristion

01974 299367

Canolfan Merched Y Wawr
Stryd yr Efail
Aberystwyth.

Twrnament Pêl-droed

Ar benwythnos braf ond oer ar Ddydd Sadwrn a Dydd Sul Ebrill 6ed a 7fed cynhaliwyd y Twrnament Pêl-droed cyntaf i blant ac ieuenctid o dan 16 oed o dan adain Clwb Pêl-droed Penrhyn-coch a than oruchwyliaeth Ymddiriedolaeth Pêl-droed Cymru ar Gae Baker, Penrhyn-coch.

Cynhaliwyd y twrnament er cof am Eric ac Arthur Thomas, a oedd yn hoelion wyth y Clwb Pêl-droed a phentref Penrhyn-coch gyda pawb yn adnabod y ddau ac yn gwybod am eu gweithgarwch dros y blynyddoedd yn y pentref . Roeddynt yn gefnogol i bopeth ac fe fyddent wedi mwynhau gweld y plant ifanc yn cymryd rhan. Braf oedd gweld Sioned a Catrin a’r teuluoedd yn cyflwyno’r gwobrau ar y ddau ddiwrnod. Diolch iddynt am eu brwdfrydedd a’u cefnogaeth.

Ar y dydd Sadwrn roedd gêmau o dan 7 oed yn yr ysgol, ac o dan 11 a dan 14 ar Gae Baker, ac ar y dydd Sul o dan 9 oed, o dan 12 oed ac o dan 16 hefyd ar Gae Baker.

Cafwyd dros 50 o dimoedd dros y gwahanol oedrannau gyda gêmau brwdfrydig yn cael eu chwarae o dan bob oedran o 5 a 6 oed i fyny at 16. Daeth tyrfa lu i wyluo y plant yn chwarae ar y ddau ddiwrnod gyda phawb yn mwynhau y bwrlwm a’r lleoliad.

Chwaraewyd y gêmau yn y modd gorau gyda brwdfrydedd y plant a’r ieuenctid yn dod trwodd, boed ennill neu golli. Enillwyr y gwahanol oedrannau oedd:

- Dan 9 oed - Bow Street
- Dan 11 - Tal-y-bont
- Dan 12 - Bont Teifi
- Dan 14 - Bow Street
- Dan 16- Penrhyn Swans gyda Chwaraewr y Twrnament yn mynd i James Morgan, Bro Dysynni.

Mae ein diolch fel Clwb Pêl-droed i bawb a fu ynghlwm â’r diwrnod yma. Mae’r nifer yn ormod i enwi ac edrychwn ymlaen yn eiddgar ar gyfer twrnament 2014.

Diolch

Ar ran y teulu Thomas hoffwn ddweud diolch yn fawr mawr i Glwb Pêl-droed Penrhyn-coch am drefnu yr Ŵyl ac am gadw enwau Dad ac Arthur yn fyw yn y Clwb. Diolch i Gymdeithas Pêl-droed Cymru am eu mewnbwn a’u presenoldeb yn ystod y penwythnos. I’r holl chwaraewyr, rheolwyr a chefnogwyr am droi allan yn llw. I’r merched fu wrthi’n brysur yn paratoi bwyd a phaneidiau diddiwedd o de a coffi ac yn olaf - ond nid yn lleiaf - i Kevin Jenkins. Roedd Dad yn meddwl yn uchel iawn o Kev a byddai wedi bod yn hapus cael ei enw yn gysylltiedig â thwrnament mor llwyddiannus, yn enwedig efo Kev wrth y llyw. Sioned Thomas-Martin a Catrin Galbraith



James Morgan o Glwb Pêl-Droed dan 16 Bro Dysynni enillodd Darian Goffa Eric a Gwenda Thomas am chwaraewr y twrnament. Fe’i gwelir yn ei derbyn gan y pedwar ŵyr a wyres - Elisa, Wil, Owen a George.

CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN

Oedfaon Pen-llwyn

Mai
19 10.00 Ifan Mason Davies
26 10.00 Terry Edwards

Mehefin
2 5.00 Nicholas Bee
9 10.00 Roger Thomas
16 10.00 Ifan Mason Davies
23 5.00 Gweinidog
30 10.00 Gordon MacDonald

Croesawu a Ffarwelio

Mae'n bleser cael croesawu Carol ac Edward Land i rif 11 Stad Pen-llwyn. Cafodd Edward ei fagu yma, ac mae ef a'i briod Carol wedi dychwelyd i'n plith. Gobeithio y byddwch eich dau yn hapus iawn yn eich cartref newydd, ac y bydd atgofion bore oes yn llifo i'r cof. Croeso cynnes yn ôl i Ben-llwyn.

Wrth groesawu, rhaid hefyd ffarwelio ag Alma a Gordon Land a adawodd rhif 11 am 26 Ger-y-llan, Penrhyn-coch. Ni fu Gordon yn dda ei iechyd yn ddiweddar ond da yw dweud ei fod lawer yn well erbyn hyn. Gobeithio y byddwch chwithau yn hapus iawn draw yna ym Mhenrhyn-coch, ac y cawn eich gweld yn ôl yn eich hen ardal o dro i dro. Dymuniadau gorau i chwi eich dau.

Gwellhad Buan

Nid yw Mr Elwyn Jones, Abercwm-dolau, wedi bod yn dda ei iechyd yn ddiweddar, ac wrth fynd i'r wasg, 'roedd yn dal yn yr ysbyty. Dymuniadau gorau iddo am wellhad buan oddi wrthom ni i gyd ym Mhen-llwyn.

Amy y Bêl-droedwraig

Bu Amy Dryburgh, Maesmelindwr, yn chwarae pêl-droed mewn gêm gyfeillgar y mis diwethaf, yn erbyn tîm o fechgyn ger Llandudno. Mentrodd Katy John, Rhydyfelin, hefyd efo Amy i geisio trechu y bechgyn, ond cyfartal oedd hi y tro hyn. 3:3. Canlyniad gwell y tro nesaf, efallai. Daliwch ati, a phob hwyl.

Cylch Meithrin Pen-llwyn Ymweliad - Fferm Cwmwythig

Diolch i Catrin ac Elystan Evans a Mr a Mrs Arnold Evans, Cwmwythig, am groesawu



plant Cylch Meithrin Pen-llwyn i'w fferm ar fore hyfryd ar ddydd Iau yr zil o Fai. Gwelir Elystan ac Arnold Evans yn dangos eu lloibach i'r plant mewn un llun ac Ania, merch Catrin ac Elystan Evans, yn arwain y plant yn y llun arall, yng nghwmni Shirley Evans a Tracy Exley o'r Cylch ac Elen Howells, un o'r mamau. Cafwyd llawer o hwyl ac addysg am waith fferm a chael cip agos ar odro gwartheg, lloibach, wŷn, moch a cŵn bach ac amryw o'r plant nawr am anelu at weithio ar fferm.

Er cof am Mrs Myfanwy Thomas

Daeth ton o dristwch dros ardal gyfan, pan ddaeth y newyddion fod Mrs Myfanwy Thomas, Troedrihiwlwba, Capel Bangor, (Fanw fel yr adnabyddid hi) wedi huno yn Hafan y Waun, Aberystwyth yn 89 mlwydd oed.

Ganwyd hi yr ieuangaf o bedair o ferched i Morgan a Mary Morris, Gwarfelin, Rhydyfelin, Aberystwyth. Priododd â'r diweddar Glynne Thomas Troedrihiwlwba, a buont yn byw yma drwy gydol eu hoes. Cawsant eu bendithio â phump o blant, Eifion, Mair, Wynne, Trevor a Phyllis.

Bu Fanw yn weithgar iawn drwy ei hoes, yn enwedig ar yr aelwyd yn ei chartref. Roedd yn aelod brwd o Sefydliad y Merched, ac hefyd yn aelod yng nghapel Moreiah.

Cefnogodd bwyllgor gweithiol y neuadd am flynyddoedd pan oedd ei phriod yn gadeirydd y pwyllgor. Gwelid hi bob amser yn y gegin, yn cynorthwyo gyda'r bwyd pan cynhelid gyrfaedd chwist, a chyngherddau ac ati. Gwireddwyd hi a'i phriod eu



dymuniad, pan o'r diwedd adeiladwyd y neuadd a'i hagor ym 1972.

Trist oedd y teulu pan ddirywiodd ei hiechyd a gorfod iddi ymgartrefu yn Hafan y Waun, ble y cafodd pob gofal bosib. Roedd bob amser yn sionc a diolchgar o weld y teulu, a buont hwythau yn ffyddlon iawn i'w mam yn ymweld yn gyson. Hefyd byddai gwên bob amser i unrhyw un a fyddai yn ymweld â hi.

Cynhaliwyd yr angladd yng nghapel Pen-llwyn ar 20fed o Ebrill, pan ddaeth cynifer ynghyd. Roedd y gwasanaeth yng nghofal y Parchedig Ifan Mason Davies, yn cael ei gynorthwyo gan y Parchedig ion Wyn Rhys Morris, Geoffrey Thomas a Nicholas Bee. Chwaraewyd yr organ gan Mrs Heulwen Lewis.

Estynnwn ein cydymdeimlad â'r plant, yr wyrion a'r cysylltiadau oll. Coffa da am wraig hoffus.

Helfa Wyau

Diolch i bawb a ddaeth, ac a gyfrannodd, i ein Helfa Wyau blynyddol. Fe wnaeth yr eira a'r tywydd oer bron ein trechu ni a gorfu i ni newid y dyddiad a'r lleoliad o

Ysgol Mynach i Ysgol Pen-llwyn, ond serch hyn cawsom brynhawn llwyddiannus gyda dros £450 yn cael ei godi. Diolch i gynllun £1 am £1 Barclays bydd y cyfanswm hyn yn codi eto i helpu coffrau'r Cylch yn ei gwaith hynod yn darparu addysg cyntaf i blant 2-4 oed o ardaloedd Pen-llwyn, Mynach a Phonterwyd.

Diolch i Ysgol Pen-llwyn am y croeso ac am y defnydd o'i adeilad a lle chwarae i guddio y cliwiau. Mae hefyd rhaid diolch i noddwyr ein raffl Canolfan y Celfyddydau, Siop y Pethe, Canolfan Hamdden Plas-crug, Sunbourne Leisure yn Clarach, T J Davies, McDonalds, Fferm Ffantasi Llanrhystud, Maesbangor Arms, Play Planet, New Cross Motors, Druid Inn, Argos, H2o Hayley a Christa o H2o a'n prif noddwyr Statkraft, Cwmrheidol. Diolch yn fawr iddyn nhw i gyd.

Canlyniadau Clwb 200 Mis Mawrth

- 1af Mrs Beatrice Lewis, Gyfarllwyd, Ponterwyd
- 2il Iwan Davies, Pen y Graig, Pisgah
- 3ydd Mike Exley, 111 Ger-y-llan, Penrhyn-coch
- 4ydd Ania Evans, Ardwyn, Capel Bangor

Llongyfarchiadau a diolch am eich cefnogaeth.

Eglwys Dewi Sant

Cynhaliwyd Te Pasg yr Eglwys ar brynhawn braf, ar ddydd Sadwrn, 29 Mawrth 2013. Un o'r gweithgareddau a drefnwyd oedd yr Helfa Wyau Pasg. Braf iawn oedd gweld cynifer dda o blant ac oedolion yn bresennol. Cychwynwyd yr helfa o Neuadd yr Eglwys gan fynd ar ein taith i gyfeiriad Pentrerhibyn. Cafwyd tipyn o hwyl wrth chwilota am yr wyau. Cynhaliwyd amrywiaeth o weithgareddau eraill yn ystod y prynhawn. Addurno Croes Pasg gyda blodau, raffl, dyfalu faint o wyau pasg oedd mewn jar, helfa drysor a llywio. Ar ddiwedd yr helfa, cafwyd te hyfryd a blasus yn y neuadd. Diolch i bawb a fu'n cynorthwyo, gan wneud y prynhawn yn llwyddiannus, a hynny mewn gwahanol ffyrdd. Diolch am eich cefnogaeth.

Priodas Arian

Llongyfarchiadau calonnog i Dr. Chris a Mrs. Alison Little, Brynteg ar ddathlu ohonynt eu priodas arian ar y 25ain o'r mis yma. Mae Alison yn esiampl i lawer drwy

iddi feistrioli yr iaith gymraeg a'i siarad mor rhugl. Mae yn aelod brwd o Ferched y Wawr ac yn ymdoddi i weithgareddau'r ardal. Dymuniadau gorau, mwynhewch y dathlu yng nghwmni eich teulu hoff.

Capel Pen-llwyn

Bore Sul 5ed o Fai, cafwyd oedfa deuluol dan arweiniad ein Gweinidog, y Parch Wyn Rhys Morris.

Cymerwyd y rhannau arweiniol gan blant yr Ysgol Sul a hyfryd oedd gweld eu rhieni hefyd yn y gwasanaeth arbennig hwn.

Dangoswyd i'r plant luniau ar y sgrin yn egluro dameg y Ddafad Golledig. Yna aethant allan i'r festri i wneud eu taflenni gwaith ac yn ôl i'r capel i'w dangos wedi'r bregeth. Cafwyd oedfa fendithiol iawn.

Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Paul a Lowri, Manteg ar enedigaeth eu hail ferch, Anwen Mair. 'Rwy'n siwr fod Ffion yn falch iawn o'i chwaer fach newydd. Pob dymuniad da.

Priodas Aur

Llongyfarchiadau cynnes i Mr. a Mrs. Maldwyn James, Afallon ar ddathlu ohonynt eu Priodas Aur ar y 10fed o Fai. Pob dymuniad da i'r dyfodol i chi eich dau oddi wrth bob un o'r ardal.

Paneli Solar ar gyfer Neuadd Pen-llwyn, Capel Bangor

Mae paneli solar wedi eu gosod ar do Neuadd Pen-llwyn, Capel Bangor, ers dros flwyddyn bellach. Nôl ym mis Tachwedd 2011 penderfynodd Pwyllgor y Neuadd edrych ar sefyllfa defnydd a chostau ynni'r Neuadd gan bod costau trydan yn codi bob blwyddyn. Cafwyd archwiliad defnydd



Alaw a Llŷr yn mwynhau yn ddiweddar yn Bluestone - gwobr ar ôl ennill cystadleuaeth fach ar Gweplyfr (Facebook).

ynni'r Neuadd gan Ynni i Fynnu, menter sy'n helpu grwpiau ac adeiladau cymunedol i fod yn fwy effeithlon gyda'i defnydd o ynni. Un o'r argymhellion oedd gosod system solar a fyddai yn creu ynni a hefyd creu incwm, trwy daliadau yn ôl ar gyfer yr ynni sy'n cael ei greu. Aeth y Pwyllgor ati i ymchwilio yn fwy manwl, a chafwyd cyngor gan gwmni lleol Clear Solar ynglŷn â pha system fyddai orau o ran maint, lleoliad ag ati. Penderfynwyd mynd am system 2.4 Killowatt, sef 8 panel, mewn dwy res ar do cefn y Neuadd.

Roedden yn lwcus fod y prosiect wedi ei gwblhau mewn pryd, ac wedi ei gofrestru o fewn diwrnod o'r dyddiad cau, sef 1af Mawrth 2012, er mwyn diogelu ein bod yn derbyn taliad o 45 ceiniog fesul kilowatt o ynni sy'n cael ei gynhyrchu am gyfnod o 25 mlynedd. Bu tîm Clear Solar yn hynod o broffesiynol, ac roedden yn lwcus ei bod yn cynnwys, Aled Jenkins, Pandy, fel y trydanwyr a wnaeth yn siŵr fod popeth yn gweithio mewn pryd.

Cawsom gefnogaeth hael gan Cyngor Cymuned Melindwr ar gyfer y prosiect mewn cyfraniad o £3,000 tuag at gostau gosod y system. Mae'r system bellach wedi bod yn gweithredu ers dros flwyddyn bellach wedi cynhyrchu 2181 Killowatt o ynni ar gyfer y Neuadd a rhoi taliad o £1000 mewn incwm. Yn ogystal â hyn mae ein costau defnydd ynni wedi disgyn ac rydyn fel Pwyllgor yn medru cadw costau llogi'r Neuadd yn isel a gwneud yn siŵr fod y neuadd yn hunan cynhaliol ar gyfer y dyfodol.

Genedigaeth

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Eluned a Gareth Lewis, Brynmeirion, ar enedigaeth mab - Gryffydd Meirion - ar 11 Mai; brawd bach i Sara Mair.

PENRHYN-COCH

Suliau		
Horeb		
Mai		
19	10.00	Oedfa ar y cyd ym Methel Gweinidog
26	10.30	Oedfa bregeth Gweinidog Mehefin
2	2.30	Oedfa gymun Gweinidog
9		Taith i Benfforddlas
16	2.30	Oedfa bregeth Gweinidog
23	10.30	Oedfa bregeth Y Parchg Peter Thomas
30	10.30	Oedfa bregeth Gweinidog



Y plant yn Fferm Pen-banc.

Cinio Cymunedol Penrhyn-coch

Bydd y Clwb yn cyfarfod yn Neuadd yr Eglwys dyddiau Mercher 22 Mai, 12 a 26 Mehefin. Cysylltwch â Job McGauley 820 963 am fwy o fanylion neu i fwcio eich cinio.

Tywydd

Roedd mor braf cael tywydd cynnes heulog dros ŵyl y Banc. Cofnodwyd 20°C yng Ngogerddan, amser cinio dydd Mawrth 7 Mai am 12:00. Trueni iddi newid yn wynt a glaw wedyn!

Adroddiad da

Llongyfarchiadau i Gylch Meithrin Trefeurig ar gael adroddiad Estyn da yn ddiweddar - gweler adroddiad misol y Cylch isod.

Dathlu 150 Ysgol

Bydd penwythnos o ddathlu 150 mlynedd Ysgol Penrhyn-coch ar Fedi 13-15. Cynhelir disgo yn y Clwb nos Wener, diwrnod agored yn yr Ysgol brynhawn Sadwrn 14 pan fydd hefyd arddangosfa o hen luniau yn Neuadd yr Eglwys. Os oes gan unrhyw rai luniau o’u cyfnod yn yr ysgol mae’r Pwyllgor Dathlu yn gwneud apêl i gael eu benthg i’w hystyreid ar gyfer yr Arddangosfa. gellir eu gadael d/o Lynwen Jenkins gan nodi dyddiad lle mae’n bosibl. Nos Sadwrn bydd cyngerdd yn Neuadd y Penrhyn a gwahoddir cyn ddisgyblion a rhieni i ymuno â Chôr Eisteddfod Penrhyn-coch ar gyfer canu

yn y cyngerdd. Bydd y dathlu yn gorffen gyda ras dractors ar y bore Sul.

Cylch Meithrin Trefeurig

Ym mis Mawrth cafodd y Cylch arolwg Estyn. Adroddodd yr arolygydd bod perfformiad presennol y lleoliad a rhagolygon gwella’r lleoliad yn dda. Mae’r holl blant yn cael eu cefnogi’n dda ac yn elwa o gwricwlwm sy’n eang, cytbwys a diddorol. Mae’r arweinydd, staff a’r pwyllgor rheoli yn rhannu gweledigaeth glir. Mae bron pob un o’r plant yn hunan hyderus wrth wybod eu bod yn cael eu cefnogi’n dda a bod ganddynt dasgau diddorol sydd wedi eu darparu ar eu cyfer.

Os ydych am weld yr adroddiad cyfan, ewch i www.estyn.gov.uk. Hoffwn ddiolch i bawb wnaeth helpu yn ystod cyfnod yr arolwg.

Y tymor yma rydym wedi cymryd mantais o’r tywydd braf. Ein thema yw adar ac anifeiliaid. Aethom ni am dro i Cwmbwa i weld yr hwyaid ac am dro i Pen-banc i weld yr ŵyn bach. Diolch yn fawr am y croeso gawsom.

Fe wnaeth nifer fawr o blant y Cylch gystadlu ar y nos Wener yn Eisteddfod Penrhyn-coch. Da iawn chi i gyd am ganu a llefaru mor dda. Yn fuddugol yn yr unawd oedd Lily-Ann, gyda Daisie May yn ail ac Osian yn drydydd. Yn y llefaru Osian oedd yn gyntaf, gyda Lily-Ann yn ail a Daisie May yn drydydd. Hefyd daeth y parti llefaru yn ail. Llongyfarchiadau i chi gyd.

Merched y Wawr

Nos Fawrth 10ed o Ebrill aeth y gangen i ymweld â Hyfforddiant Ceredigion yr

Uned Harddwch yn Llanbadarn Fawr. Cafwyd croeso cynnes iawn gan Vanessa Evans a’i Chyd Hyfforddwyr, hefyd gan y Myfyrwyr, rhain i gyd wedi rhoi o’i noson er mwyn i ni Aelodau Merched y Wawr gael ein maldodi. Fe gafodd rhai ohonom ei gwallt wedi ei drîn, eraill eu hewinedd a’u dwylo ac un arall ei hwyneb wedi ei goluro.

Cafwyd yr holl hanes sut i drîn a chadw y gwallt yn iach ac ewinedd ac yn y blaen. Yna aeth y Myfyrwyr ati i harddu bob un ohonom.

Ar wahân i Vanessa yr oedd Rhian Rees a Lynwen Wells yr Hyfforddwyr eraill yn cadw llygad ar y Myfyrwyr yn eu gwahanol ystafelloedd. Ar y noson, roedd rhai or Myfyrwyr ar brawf a gorfod dangos sut oeddynt yn ymdopi a’u gwaith coleg. Fel cangen, roeddem yn falch o gael y dysgwyr yn ein plith ac yr oedd pob un ohonynt yn hapus yn ein plith ni hefyd.

Chwarae teg fe wnaeth pob un ohonynt waith gwych a dymuwn yn dda iddynt yn eu gyrfa i’r dyfodol. Deallir fod yr uned yn derbyn pawb i droi i fewn i gael trin eu gwallt ac yn y blaen, unrhyw adeg. Mae’r uned hefyd yn derbyn plant ysgolion uwchradd a cholegau o Geredigion a thu fas i’r Sir i ddod i ymweld â hwy.

Diolchwyd ar ran y gangen yn swyddogol gan Wendy Reynolds, diolchodd am noson ddiddorol dros ben ac am y cwpanaid a gawsom yn ystod noson. Trueni na fuasem wedi trefnu i fynd allan i rhywle i fwynhau a chael dangos yr holl harddwch. Ond gartref aeth pawb yn edrych yn ddeniadol dros ben.

MADOG

Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â Sarah ac Emyr Evans, Megan ac Ifan, 18 Maesyrefail, ar farwolaeth tad Sarah - Trefor Humphreys, gynt o'r Borth, yn Ysbyty Bron-glais ar 7 Ebrill.

Swydd newydd

Llongyfarchiadau i Meleri Jones, Rhydyrysgaw, ar gael ei phenodi yn Bennaeth Cynorthwyol Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd, Maesteg.

Rhedwraig

Llongyfarchiadau i Bev Thomas, Garn Wen, am redeg Marathon Llundain mewn 5 awr 49 munud a 59 eiliad!

Urddo'n Llywydd

Dymuniadau Gorau i Mrs Mairwen Jones a fydd yn cael ei hurddo'n Llywydd Senana Cymanfa Bedyddwyr Caerfyrddin a Cheredigion yng Nghyfarfodydd y Gymanfa ym Mhen-parc ganol Mai ganol Mai.

Genedigaethau

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Ellen ac Iwan Hywel, Tre-garth, ar enedigaeth eifeiliaid ar Ebrill 23. Ganwyd Cernyw Hywel a Gerallt Hywel, brodyr i Elliw Hywel; dau ŵyr i Mair Davies, Meurig Cottage.

Llongyfarchiadau i Bryan a Ceinwen Jones, Bodorgan, ar ddod yn dad-cu a mam-gu . Ganwyd mab ym Mron-glais - Ianto Tomos Thomas i Iona a Rob Thomas, Aberaeron ar 28 Ebrill. Brawd bach i William, Ella a Lydia.

Llywydd

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i'r Parchg Wyn Rh. Morris, Berwynfa, ar gael ei ethol yn Llywydd Sasiwn y De, Eglwys Bresbyteriaidd Cymru.

Croeso

Croeso a dymuniadau gorau i Alma a Gordon Land sydd wedi symud o Ben-llwyn i 26 Ger-y-llan.



Beth, pwy, ble?

Diolch

Dymuna Gwyneira Marshall ddiolch o galon am y cardiau, blodau, galwadau ffôn ac ymwelwyr a dderbyniodd ar ôl llawdriniaeth yn yr ysbyty yn ddiweddar.

Gwellhad buan

Dymunwn wellhad buan i Gwen Griffiths, Brogynin Fach, sydd ar hyn o bryd yn derbyn triniaeth yn Ysbyty Treforys.

Dymuniadau gorau

Dymunwn yn dda i Tirion Lewis fydd yn dilyn cwrs Cam wrth Gam sy'n rhoi cyfle i fyfyrwyr ennill cymhwyster Diploma Lefel 3 mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant yn y gweithle. Bydd yn gwneud blwyddyn o hyfforddiant yng Nghylch Meithrin Trefeurig.

Cynhyrchu Doctor Who

Llongyfarchiadau i Brian Minchin, River Mead, ar gael ei benodi yn gynhyrchydd gweithredol newydd y gyfres Doctor Who. Bydd yn gweithio ar y cyd â Steve Moffat. Ymunodd Brian ag Adran Ddrama BBC Cymru Wales ym 2005, cyn cychwyn fel golygydd sgriptiau ar 'Belonging' ac wedyn Doctor Who. Yn y llun gwelir Brian ar leoliad adeg ffilmio y gyfres ddiweddaraf o Torchwood.

Oedfaon Madog

- 2.00
- Mai
- 19 Bugail
- 26 R W Jones

Mehefin

- 2 Bugail
- 9
- 16 Bugail
- 23 Eric Greene
- 30 Christopher Prew

Ar y teledu

Bu Erwyd Howells, Tŷ Capel Madog, yn sgwrsio gyda Dewi Prysor am ddynion hysbys ar y rhaglen 'Darn bach o hanes' yn ddiweddar.



Luniau: Arvid Parry-Jones

Llongyfarchiadau i Siân Mari Evans gafodd gyntaf am lefaru Dosbarth Derbyn yn Eisteddfod Gadeiriol Penrhyn-coch nos Wener 26 Ebrill.



Brian Minchin

Eisteddfod Gadeiriol Penrhyn-Coch 2013



Parti Delyth - 1af yn y Parti Llefaru

Cynhaliwyd Eisteddfod Gadeiriol Penrhyn-coch yn Neuadd y Penrhyn nos Wener a dydd Sadwrn 26-27 Ebrill.

Cafwyd cystadlu o safon uchel yng nghyfarfod nos Wener - mae'n diolch yn fawr i brifathro, staff, rhieni a disgyblion Ysgol Penrhyn-coch am fod mor gefnogol yn flynyddol. Yr arweinyddion oedd Gregory Vearey-Roberts, Rhian Gareth, Cemlyn Davies ac Emyr Pugh-Evans.

Beirniaid eleni oedd: Nos Wener: Cerdd: Pete Leggett, Dolau; Llefaru: Catrin Mai, Tal-y-bont. Cerdd: Ann Atkinson, Corwen; Llên a llefaru: Mair Wyn, Brynaman.

Y cyfeilyddion oedd - nos Wener: Heddwyn Pugh-Evans, Y Borth; dydd Sadwrn: Lowri Guy, Caerdydd.

Llywyddion eleni oedd - nos Wener: Glenys Morgan; pnawn Sadwrn: Dafydd Sheppard a nos Sadwrn: Ceris Jones, Waun-fawr. Mae Glenys a Dafydd yn byw ac yn weithgar yn y pentret, mae gan Ceris gysylltiadau â'r petnref drwy deulu Llwyn Gronw. Soniodd yn ei haraith mai ei mam-gu osododd carreg sylfaen Neuadd y Penrhyn ym 1953.

Llongyfarchiadau i bawb a fu yn llwyddiannus a diolch i bawb o bell ac agos am gefnogi'r eisteddfod.

Bu cystadlu brwd am Dlws yr Ifanc - gâi ei roi eleni am waith cerddorol. Daeth saith cyfansoddiad i law a llongyfarchiadau i bob un. Yn ôl Ann Atkinson, y beirniad, roedd yn gystadleuaeth anodd i'w beirniadu oherwydd y safon!

Gellir gweld y feirniadaeth lawn ar wefan Trefeurig <http://www.trefeurig.org/>

Canmolodd y beirniad pob cyfansoddwr ond yn arbennig Robin Goch am 'Y Gymraeg' oedd mor agos i'r brig. Ond enillydd eleni oedd Pantycelyn gyda 'Ymdeithgan y Werin'. Diolchodd am gystadleuaeth mor rhagorol.

Roedd Ymdeithgan y Werin - (Pantycelyn) yn gyfanwaith ar gyfer chwech allwedd / piano trydanol a drwm.

"Dyma gyfansoddiad cyffrous tu hwnt. Gyda'r dewis o amseriad 8/8 yn ddiddorol.

Mae'r ymdeithgan yn tyfu ac yn ehangu yn effeithiol dros ben rhwng yr adrannau. Hefyd mae'r cyfuniad o'r offerynnau a'r newid amseriad yn creu cyffro. Mae'r strwythur a'r daith yn bleserus iawn gyda defnydd o harmonïau addas dros ben. Llongyfarchiadau. Cyffrous iawn."

Cyhoeddwyd enw'r enillydd - sef Eilir Pryse o Ben-y-graig, Aberystwyth. Mae Eilir yn wyneb cyfarwydd iawn i lwyfan Eisteddfod Penrhyn-coch a dyma'r ail waith iddo ennill Tlws yr Ifanc - enillodd y Tlws pan roddwyd ef am waith cerddorol gyntaf yn 2009 pan oedd yn ddisgybl yn Ysgol Uwchradd Tregaron. Mae erbyn hyn yn astudio Mathemateg ym Mhrifysgol Aberystwyth. Cyfansoddodd y darn yn wreiddiol fel rhan o waith cwrs lefel A cerddoriaeth yn Ysgol Uwchradd Tregaron. Mae'n ddiolchgar am yr arweiniad a'r cymorth a roddwyd iddo. Llwyddodd i ennill cystadleuaeth cyfansoddi Ffanffer ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Llanerchaeron yn 2010 pan glywyd y ffanffer ym mhrif seremonïau yr ŵyl. Mae'n adnabyddus drwy'r ardal am ei ddoniau llefaru ond hefyd mae'n gerddor o fri - yn aelod o Philomusica a Band chwyth y Brifysgol ac yn gyn aelod o Gerddorfa'r Tair Sir, Band Pres y Tair Sir, a Band Pres Aberystwyth ar yr offerynnau taro. Mae hefyd yn arweinydd Côr Pantycelyn ac fe'i welwyd yn eu harwain yng Nghystadleuaeth Côr Cymru eleni ynghyd â chanu gyda Côr Ger-y-lli. Person prysur iawn. Llongyfarchiadau mawr iddo am ei holl orchestion.

Roedd y gadair yn wobwr am gerdd heb fod dros 50 o linellau ar y testun 'Perthynas'. Cafwyd 27 yn cystadlu eleni - mwy nac erioed - siwr fod gweld y gadair hardd a wnaethpwyd gan Gwmni MijMoj o Lanfairfechan ac a roddwyd gan Dr Huw Martin Thomas, Ger-y-llan, er cof am ei rieni - Martin a Gwenda Thomas wedi denu cystadleuwyr. Penderfynodd y beirniad mai eiddo Powys



Arwen Exley yn ennill y wobwr gyntaf unawd blwyddyn 3-4 nos Wener



Sioned Exley - 1af unawd ysgol uwchradd



Dafydd Sheppard - Llywydd pnawn Sadwrn



Gregory Roberts - 1af alaw werin agored

oedd y gadair am gerdd Gwreiddiau a phan safodd y bardd buddugol gwelwyd mai'r enillydd oedd John Meurig Edwards, Aberhonddu - a enillodd y llynedd hefyd.

Llongyfarchiadau hefyd i Dorothy Jones, Llan-gwm - beirniaid llên a llefaru y llynedd. Hi fydd yn derbyn Medal T.H. Parry Williams eleni yn yr Eisteddfod Genedlaethol.

Cystadleuaeth y Gadair

Perthynas

Ciliodd hanner canrif
ers cefnu ar fro mebyd;
bro'r mawn a'r mynydd,
bro'r llynnoedd a'r llonyddwch,
bro'r nentydd a'r mudandod mwyn.

Dyma'r crochendy
lle mowldiwyd fy nghlai;
lle cefais gadernid yng ngwres ei dân,
cyn rhoi'r sglein terfynol
i'm llestr amrwd.

Minnau yn llathreiddrwydd ieuenctid
yn gadael,
ar antur wynebu'r byd.
Anfynych fu'r dychwelyd,
a llaciodd yr hualau
yn nhreigl y blynyddoedd.

Mewn coleg a dinas,
ambell blwc ar linynnau'r galon
yn dwyn i gof
ddyddiau ysgafnfryd
yr unigeddau digyffro,
a'r cyfoedion a ymddieithriodd.

Bwrw gwreiddiau
mewn bro alltud.
Er mwyned ei thir,
er hynawsed ei phobl,
llac yw'r cadwynau
a'm hangorant i'w daear.
Estron yw'r iaith,
ac amhersain ei hachenion.
A'r cymdogion prin eu sgwrs
sy'n cadw'r pellter parchus.

Ar daith atgofus
i'r henfro,
dieithr yw'r wynebau
ar stryd y pentref,
a chladdwyd yr iaith
ym meddrodau'r plwy'.

Ond caf eto ymgolli
yng nghofleidiad y bryniau,
a chusan croeso'r awel ar fy ngrudd.
Bydd dŵr y nant drachefn
yn sibrawd ei gyfarchiad,
ac ar lwybrau maboed
caf deimlo eilwaith
rym y perthyn.

Powys: John Meurig Edwards, Aberhonddi

*Cerdd sy'n olrhain yn gelfydd berthynas y bardd â'i
henfro. Hoffais yn fawr gynildeb y mynegiant celfydd a'r
diweddglo cynhwysfawr. Mair Wyn (Beirniad)*

Telyneg

Gyda'r hwyr

(pâr priod, y noson olaf cyn mynd i gartref henoed)

Tyrd, gad inni swatio
Am ychydig,
Cyn cau'r llenni
Ar ddagrau'r dydd.
Swatio a chofio.....

Caeau'r ddôl,
Ar ddydd cynhaeaf,
Fel cwrlid aur
Rhwing gwnïad clos
O gloddiau terfyn.
Y plant yn gewri'r gowlas,
A bywyd yn braf.

Y don yn torri
Ar Gaer Arianrhod
A sgert yr Eifl
Yn gwlychu'r godrau
Yn nŵr yr heli.

Mynyddoedd Wiclo
Yn y pellter
Yn ein hudo
I Erin
Hyd lwybr machlud.

Wel'di,
Mae'r ddraenen wen
Yn bwrw'i chonffeti,
A pherthi'r rhos
Yn drwm gan wyddfid.
Awelono'r Lôn Wen
yn cosi'r gwrychoedd,
A'r haul
Yn mwytho'r tonnau.

Tyrd,
Trysora'r llun
Cyn cau'r llenni
Yn araf,
Araf bach.

Mona Thomas, Pen-y-groes, Gwynedd

Englyn digri

Y Ddannoedd

O ddyn! Trychineb yw'r ddannoedd – y poen
Yn pannu fel nadroedd,
Blin a chythryblus pob bloedd
Udo a wnes am hydoedd.

Y Parchg Judith Morris

Rhedeg dros yr iaith! 2013

Ras gyfnewid dros yr iaith Gymraeg o Senedd-dy Glyndŵr ym Machynlleth ar y **13 Medi 2013** i Gastell Aberteifi ar ddydd **Sul 15 Medi 2013**.

Bydd unigolion, teuluoedd, busnesau neu glybiau yn talu £50 i noddi 1 cilomedr a chario baton y ras. Bydd Ras yr iaith yn uno gwlad a thref, pobl o wahanol oed a chefnidir a hefyd siaradwyr Cymraeg, dysgwyr a'r di-Gymraeg wrth i ni gyd redeg a dathlu'r Gymraeg.

Machynlleth i Aberteifi Medi 2013

- ✚ Dathlu'r iaith Gymraeg
- ✚ Cryfhau'n cymunedau
- ✚ Tynnu pobl at ei gilydd
- ✚ Hybu mudiadau lleol
- ✚ Codi proffil cymunedau
- ✚ Hybu iechyd gorfforol
- ✚ Codi arian

Dewch i redeg, cefnogi a dathlu!

www.rasyriaith.org [@rasyriaith](https://twitter.com/rasyriaith) rasyriaith@hotmail.com

Dychwelyd at Golff Cynnig Aelodaeth

7 mis am bris 6 mis

Ar gael o Fehefin 1^{af}

Mae'r cynnig ar agor i **aelodau newydd**, neu i **gyn-aelodau o Glwb Golff Borth ac Ynyslas** a oedd yn aelodau cyn 2012. Mae hwn yn gynnig aelodaeth **categori A**.

e-bost: secretary@borthgolf.co.uk Ffôn: 01970 871 202

[@BorthYnyslasGC](https://twitter.com/BorthYnyslasGC)

Mae antur yn aros amdanoch...

Dewch i ddarganfod traethau ysblennydd, teithiau cerdded hyfryd a rhaglen weithgareddau yn llawn cyffro. Neu ymwelwch ag un o'n hatyniadau gwych i'r teulu cyfan: teithiwch yn ôl mewn amser a darganfod eich rhyfelwr mewnol yng Nghastell Henllys, ymunwch â'r hwyl ganoloesol yng Nghastell Caeriw, neu manteisiwch ar gyfle i fod yn artist yn Oriel y Parc.

Cewch fwy o wybodaeth ar www.arfordirpenfro.org.uk.

Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
Pembrokeshire Coast National Park

Ymwelwch â'n stondin yn Eisteddfod yr Urdd i ddarganfod diwrnod allan gwych.

Cyngor Cymuned Tirymynach

Cyfarfu'r Cyngor uchod ar nos Iau 25 Ebrill yn Neuadd Rhydypennau o dan gadeiryddiaeth y Cyng. Heulwen Morgan. Bydd y cyfarfod nesaf ar 30 Mai am 7.30, yn y neuadd a hwn fydd y Cyfarfod Blynnyddol. Anogir y trethdalwyr lleol i fod yn bresennol, ac i godi unrhyw fater o ddiddordeb iddynt yn yr ardal.

Diolchwyd i'r Cynghorwyr Gwynant Phillips a Harry Petche am eu gwaith dros y cyngor am nifer o flynyddoedd, mae'r ddau wedi ymddiswyddo ers y cyfarfod cynt. Gan fod hawl gan y cyngor i gyfethol aelodau, fe wnaed hynny yng nghyfarfod Mawrth, ac mae'r ddwy a enwyd wedi derbyn y swyddi. Byddant yn cael eu croesawu yn y cyfarfod nesaf. Y ddwy yw Meinir Jones o ystad Cae Rhos, a Ann Lydia Davies o ystad Cae'r Odyn.

Ar awgrym y Cyng. Sian Jones, Caerwywydd penderfynwyd cefnogi yr enw Cain Fallen ar yr ystad newydd yng nghae Caerwywydd. Argymhellir i'r

enw gael ei dderbyn gan y Cyngor Sir a'r datblygwyr.

Parthed y gorlifiad dŵr o gae chwarae Tregerddan, adroddodd y Cyng. Paul Hinge iddo ef a'r Cyng. Vernon Jones gyfarfod â chynrhychiolydd o Brifysgol Aberystwyth y diwrnod cynt, addawodd ef, sef Mr Huw Williams y byddai'r gwaith o draenio'r tir yn cychwyn gynted ag y byddai'r tywydd yn caniatáu.

Daeth cynrychiolydd cwmni offer chwarae o Wrecsam i gyfarfod â'r clerc parthed offer i faes chwarae Bryncastell, ond roedd eu cyfarpar yn llawer rhy fach. Disgwylir cynrhychiolydd o gwmni ym Methesda i alw heibio'n fuan.

Mae'r meinciau newydd yn y broses o gael eu gosod, dwy ger Tregerddan, (un gyferbyn â Swyddfa'r Post), y llall ger Ysgol Rhydypennau (gyferbyn â Llysafan). Adroddodd y clerc mai Rheidol Garden Services (Capel Bangor) fydd yn gyfrifol am dorri porfeydd y Cyngor eleni.

Yn ei adroddiad misol dywedodd y Cyng. Paul Hinge, y bydd y blwch postio yn dychwelyd i le cyfleus yn fuan ym Mlaenddôl. Bydd hefyd yn ymgychu i gael arwyddion mwy o faint yn cymell pobl i beidio mynd a chŵn i faes chwarae Tregerddan.

Mae nifer o enghreifftiau o fandaliaeth wedi digwydd yn yr ardal yn ddiweddar. Ffenestri yn cael eu malu yng Nghapel Noddfa, poteli yn cael eu torri wrth y siglenni ym maes chwarae Tregerddan, a fflodiart wedi ei thynnu ymaith ar yr afon Ceiro, ar ffin dwy fferm. Mae heddwys y gymuned yn gwneud ymchwiliadau ar hyn o bryd.

Doedd yna ddim ceisiadau cynllunio gerbron y cyngor, nag adroddiadau am geisiadau blaenorol. Mae'n ymddangos bod ddiffygion a phroblem Dŵr Cymru ynglŷn â'r garthffosiaeth leol yn cael dylanwad andwyol ar unrhyw ddatblygiad yn yr ardal.

Ysgol Penweddig

Llongyfarchiadau i'r disgyblion am ganlyniadau ardderchog yn Eisteddfod Sir yr Urdd 2013. Bydd yr enillwyr yn mynd ymlaen i Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Sir Benfro ar ddiwedd mis Mai.



2il yn y Parti Bechgyn Bl. 7, 8 & 9 ac yn cael mynd drwodd i Foncath: Rhes gefn; Bryn Griffiths, Caredig ap Tomos, Gwion Morgan-Jones a Siôn Hurford. Rhes flaen; James Michael, Owain Gruffydd, Wil Rees, Jordan Jones, Geraint Howard a Sam Ebenezer (arweinydd)

Seren Wyn Jenkins – 1af yn y Gystadleuaeth Creu Arteffact Bl. 7 & 8 a Dylunio a Thechnoleg Bl. 7 & 8:

Sioned Exley – 1af yn y Gystadleuaeth Gemwaith Bl. 7 & 8. = y ddwy o Benrhyn-coch

1af yn yr Ensemble 15-25 oed: Chwith i dde; Daniel Thomas, Rhun Penri, Sion Hughes, Aled Skym, Erwan Izri, David Michael, Gethin Thomas, Robin Tomos, Gwern Penri, Carwyn Hughes ac Iestyn Evans



Mwy o luniau t20

BOW STREET

Oedfaon y Garn 10.00 a 5.00
<http://www.capelygarn.org/>

Mai

- 19 Bugail Oedfa Cymorth Cristnogol am 10.30 o'r gloch dan arweiniad y Bugail. Cinio Bara a Chaws i ddilyn Oedfa gymun am 5 o'r gloch
- 26 R W Jones

Mehefin

- 2 Noddfa Bugail
- 9 W.J. Edwards
- 16 Bugail
- 23 Eric Greene
- 30 Christopher Prew

Noddfa

Mai

- 19 Uno yng Nghapel y Garn am 10.30 ar gyfer Oedfa Cymorth Cristnogol.
- 26 Oedfa am 5.00. Gweinidog.

Mehefin

- 2 10.00 Gweinidog
- 9 2.00 Gweinidog
- 16 Undebol yn Soar am 10.00
- 23 10.00 Trefn Lleol
- 30 5.00 Gweinidog

Dysgwraig lwyddiannus

Mewn gweithdy a gynhaliodd Cyngor Sir Ceredigion yn ddiweddar ar ganlyniadau Cyfrifiad 2011 yn Abereron roedd yna bedwar oedd wedi dysgu'r Gymraeg ar banel yn trafod eu profiadau. Un ohonynt oedd Jackie Wilmington sy'n byw yn y Garreg Wen, Bow Street.

Ganwyd a magwyd Jackie yn Nyfnaint. Daeth ei gwaith fel milfeddyg a hi i weithio i Ruthun ac yn y 1990au symudodd i'r labordy ar y Buarth sydd gan DEFRA.



Jackie Wilmington a Felicity Roberts yn yr Eisteddfod, wedi i Jackie gael ei derbyn i'r Orsedd

Teimlai ei bod yn beth od nad oedd y llywodraeth yn cynnig unrhyw gymorth nac anogaeth i'w staff ddysgu Cymraeg er mai Cymraeg oedd iaith mwyafrif mawr y ffermwyr.

Dechreuodd ddysgu Cymraeg gyda Felicity Roberts dros ugain mlynedd yn ôl. Yr oedd wedi gwneud rhyw ychydig yng nghyffiniau Rhuthun cyn dod at Felicity fyddai'n dweud ei bod ymysg rhai o'i llwyddiannau mwyaf. Fe fynychodd y dosbarthiadau yn ddi-dor gan symud o un lefel i'r llall a phasio arholiadau i brofi hynny. Y llynedd - wedi bod yn astudio gydag eraill yn yr un dosbarth â hi ar gyfer arholiadau Gorsedd y Beirdd - fe gafodd ei derbyn yn aelod llawn. Yn ogystal â hyn gwnaeth ddau fodiwl CBAC ar lefel 'Hyfedredd' sef 'Ysgrifennu Graenus' a 'Gwneud Cyflwyniad' Nid arholiadau arbennig i ddysgwyr yw'r rhain ond rhai ar gyfer unrhyw siaradwyr Cymraeg. Cafodd Jackie farciau uchel iawn ynddynt. Y mae yn dal i fynychu dosbarthiadau gyda Felicity ac yn aelod o ddosbarth 'Gloywi Sgwrs ac Ysgrifen' ers rhai blynyddoedd. Eleni bydd yn gwneud modiwl arall ar lefel 'Hyfedredd', sef 'Crynhoi a Gwerthuso'.

Mae Jackie bellach yn medi ffrwyth ei hymdrechion a'i llafur caled drwy fod wrth ei bodd yn gallu ymuno'n llawn yng ngweithgareddau sawl cymdeithas Gymraeg, megis Cymdeithas y Penrhyn, Penrhyn-coch a Chymdeithas Edward Llwyd. Mae hefyd bellach yn un sydd yn gallu rhoi arweiniad mewn clwb darllen i ddysgwyr, a gynhelir yn nhref Aberystwyth, yn ogystal â bod yn un sydd yn cadw trefn ar bethau yn y bore coffi, a elwir erbyn hyn yn 'Glwb C'.

Fel Cadeirydd a swyddog gyda mudiad Cyd, bu Felicity a Jaci Taylor, Trefnydd y mudiad yn arbrofi am flynyddoedd gyda gwahanol ffyrdd o ddwyn Cymry Cymraeg a dysgwyr at ei gilydd i siarad yn Gymraeg. Fe sylweddolwyd mai'r ffordd fwyaf effeithiol a chyson oedd cael rota o siaradwyr Cymraeg rhugl i ddod i mewn i sgwrsio â'r dysgwyr am hanner awr ar ddiwedd y wers. Ann Jones a'i diweddar wr Gwyn, Llys Maelgwyn Bow Street fu hoelion wyth rhoi'r cynllun hwn ar waith i ni, gan drefnu rota o gannoedd o siaradwyr Cymraeg rhugl i ddod i mewn i ddosbarthiadau. Bydd llawer yn cofio fel y byddai Ann yn gwneud yn siŵr y byddent yn cofio eu bod ar y rota ac yn ymddangos yn y lle iawn ar yr adeg

iawn, a Gwyn yntau yn dawel yn y gegin yn paratoi paneidiau te di-ri, i Ann fynd â hwy i mewn i'r dosbarth yn ystod y sesiynau sgwrsio. Anrhydeddwyd Ann drwy iddi gael ei derbyn i'r Orsedd am ei rhan yn y gwaith diflino hwn

Cychwynnwyd y bore coffi a gynhelir yn yr oruwchystafell yn yr 'Home Café' fel sesiwn hanner awr o sgwrsio ar ddiwedd dosbarth safon uwch a gynhaliai Felicity o leiaf ugain mlynedd yn ôl. Aeth o nerth i nerth ac am flynyddoedd fe'i cynhaliwyd yn strategol ar ddiwedd un dosbarth, a hanner awr cyn dechrau un arall, ac yr oedd ei fynychu yn rhan o'r dosbarth a'r broses ddysgu. Fe y mae hi ar hyn o bryd y mae yn rhan greiddiol o'r dosbarth 'Gloywi Sgwrs ac Ysgrifen' a gynhelir ar fore Iau, dan nawdd Canolfan Cymraeg i Oedolion Prifysgol Aberystwyth.

Capel Noddfa

Cynhaliwyd gwasanaeth arbennig ar fore Sul 21 Ebrill yng nghapel Noddfa, Bow Street, dan ofal Gareth William Jones. Yn wahanol i'r arfer, daeth y gynulleidfa a'r plant i'r festri ar ddechrau'r gwasanaeth i gael paned a sgwrs, yn hytrach nag ar y diwedd. Rhoddodd Gareth anerchiad hyfryd i'r plant, a darllenwyd dameg y Mab Afradlon gan Jane Jones, Llangorwen. Aeth yr oedolion i'r capel, a chafodd y plant dasgau i'w cwblhau – gan gynnwys tynnu lluniau o bethau hyfryd ein byd megis sêr a chreaduriaid y môr. Cafodd y plant gyfle, ar ddiwedd y gwasanaeth, i ddangos eu gwaith lliwgar i bawb oedd yn y capel. Diolch i bawb fu ynghlwm â'r trefniadau mewn unrhyw ffordd, a gobeithio bydd modd cynnal oedfa debyg yn fuan iawn.

Genedigaeth

Llongyfarchiadau mawr i Aled a Tessa Evans, Y Sblot, Caerdydd, ar enedigaeth Martha ddiwedd mis Mawrth. Mae Martha yn chwaer fach i Osian, yn nith i Elen a Ffion, ac yn wyres i Eiry a David Evans, Maes Afallen (Tŷ Capel y Garn, gynt). Dymuniadau gorau i'r teulu i gyd.

Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Carwyn a Lyndsey Hughes Jones, Maes Awelon, Pen-y-garn



Capel Noddfa

ar enedigaeth merch fach - Maddison Leigh Jones ar 28 Ebrill, chwaer i Jordan a Benjamin a wyres i Elizabeth Lloyd-Jones, Maes Ceiro.

Merched y Wawr

I ddathlu Gŵyl Ddewi eleni gwahoddwyd canghennau Penrhyn-coch ac Aberystwyth i ymuno â ni, nos Lun, Mawrth 11eg. Braf oedd gweld cymaint wedi troi allan ar noson mor aeafol. Croesawyd pawb gan ein Llywydd, Mrs Brenda Jones, ac yna fe gyflwynodd ein gŵr gwadd am y noson, sef Mr Donald Morgan, Blodau'r Bedol, Llanrhystud. Fe gafwyd noson ddiddorol dros ben, gyda Donald, yn ei ffordd hamddenol a llawn hiwmor, yn dangos i ni sut i osod blodau. Gwnaed pedwar trefniant hollol wahanol i'w gilydd, ac ar noson mor oer, hyfryd oedd gweld dail a blodau'r Gwanwyn. Roedd y trefniadau i gyd o safon uchel. Rhoddwyd y blodau, ar ddiwedd y noson i enillwyr y raffl. Diolchwyd yn gynnes iawn i Donald gan Brenda. Yna croesawyd pawb at y byrddau. Roedd y lluniaeth wedi ei baratoi gan y Pwyllgor a braf oedd cael sgwrsio a chymdeithasu â'n gilydd. Talwyd y diolchiadau ar ran cangen Penrhyn-coch gan Mrs Mair Evans a Mrs Megan Jones o gangen Aberystwyth.

Helfa Drysor oedd wedi ei drefnu ar

ein cyfer, nos Lun, Ebrill 8fed. Siomedig oedd y nifer a gefnogodd (doedd e ddim mor oer a hynny!) ond barn y rhai a gymerodd ran oedd, ei bod yn noson hwyliog dros ben. Ein tasg oedd chwilio trwy strydoedd Aberystwyth a'r castell am atebion i gliwiau a roddwyd i ni. Cafwyd cryn ddyfalu a chrafu pen a chwerthin dro ambell un e.e. SSH CAROL!

Agorwyd ein llygaid at 'blac' neu cofeb nad oeddem wedi sylwi arno o'r blaen a dysgwyd llawer am y dref. Braf oedd cyrraedd Baravin am goffi a sgwrs a chael yr atebion cywir i'r cliwiau.

Diolchwyd i Mary a Rhys Thomas am drefnu noson mor ddiddorol.

Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Mark a Nia, 77 Bryncastell ar enedigaeth merch fach ar Ebrill 24ain, chwaer fach i Taylor.

Diolch

Dymuna Jade, chwaer Nia, ddiolch i bawb am eu consyrn a'u caredigrwydd tuag ati, ar ôl y ddamwain a gafodd yn y pwll nofio, ddiwedd mis Mawrth.

Eisteddfodol

Llongyfarchiadau i Vernon a Dilys Baker Jones, Gaerwen, am ennill yng nghystadlaethau llenyddol Eisteddfod Teulu James Pantyfedwen, Pontrhydfendigaid ddechrau Mai. Daeth Vernon yn gyntaf ar y soned a'r delyneg ac yn drydydd ar y gyfres o chwe cwpled a daeth Dilys yn drydydd yng nghystadlaethau yr emyn.

Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â Alan Wynne ac Ann Jones, a'r teulu, Trem y ddôl, ar farwolaeth Rhodri yn dawel yn ei gartref yng Nghaerdydd ddiwedd Ebrill. Cynhaliwyd dathliad o'i fywyd yng Nghapel Y Garn ar Fai 10fed. Derbyniwyd rhoddion tuag at 'Adran Ddrama Ysgol Glantaf' trwy law C. Trefor Evans.

Newid Aelwyd

Yr ydym yn dymuno pob dymuniad da i Mrs Kitty Evans, Tan-y-Foel, Y Lôn Groes,wrth

iddi fudo i gyffiniau Llanfarian er mwyn bod yn agosach at Llinos a'r teulu. Yn yr un modd yr ydym yn dymuno'n dda i Harri a Janice Petch, Maesafallen, wrth iddynt symud i ardal y Tymbl. Cydymdeimlwn hefyd â Janice ar farwolaeth ei thad - Harold Evans - yn Aberystwyth.

Ar Wella

Mae'n dda deall fod Mrs Maria Owen, Swyddfa'r Post, yn gwella'n raddol ar ôl gorfod treulio cyfnod byr yn yr ysbyty yn ddiweddar.

GOGINAN

Wyres Newydd

Llongyfarchiadau i Morfudd a Mike Ingram, Llygad y Glyn, ar enedigaeth eu hwyres Anwen Mair ar y degfed ar hugain o Ebrill.

ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL

Pen blwydd arbennig

Dymuniadau gorau i John Lewis, Dolgamlyn, a fydd yn dathlu pen blwydd arbennig ddiwedd mis Mai.

Dymuniadau gorau

Llongyfarchiadau i Gerwyn Ellis, Hywelfan, ac Eurgain James, Bronnant, ar eu priodas a croeso mawr i Eurgain i ddod i fyw yn eu cartref newydd yn y Cwm.

inc

Amrywiaeth eang o
lyfrau, cardiau, cerddoriaeth
ac anrhegion Cymraeg.

Croesawir archebion gan unigolion
ac ysgolion

13 Stryd y Bont
Aberystwyth
01970 626200

Cyngor Cymuned Trefeurig

Cyfarfu'r Cyngor nos Fawrth, 19 Mawrth 2013, yn Neuadd y Penrhyn, Penrhyn-coch gyda'r Cadeirydd, Edwina Davies, yn y gadair. Roedd Trefor Davies, Mel Evans, Shân James, Daniel Jones, Tegwyn Lewis, Dai Rees Morgan, Gwenan Price, Jeff Pyne ac Eirian Reynolds yn bresennol ynghyd â'r Cynghorydd Sir, Dai Mason. Nid oedd y Clerc yn gallu bod yn bresennol oherwydd anhwylder ac fe gytunodd Eirian Reynolds i gymryd y cofnodion. Anfonodd y cyfarfod ei ddymuniadau gorau i'r Clerc.

Croesawyd PC Hefin Jones o Heddlu Dyfed-Powys i'r cyfarfod i drafod trafndiaeth ger Ysgol Penrhyn-coch gan fod plentyn bron wedi cael anaf difrifol yno'n ddiweddar. Dywedodd fod rhieni yn parcio ar y gyffordd i'r Clwb Pêl-droed, a bod hynny'n rhwystro gyrwyr rhag gweld yn eglur. Roedd yr heddlu a Phrifathro'r Ysgol wedi anfon llythyr ar y cyd at y rhieni yn gofyn iddynt barcio ym maes parcio'r Clwb fel y byddai'r ffordd yn glir. Roedd cyflymder y traffig ar adegau yn gallu bod yn broblem hefyd, ond fe ellid rheoli hynny pan oedd yr heddlu'n gallu

bod yn bresennol. Fe fyddai'r heddlu yn trafod hefyd gydag Adran Priffyrdd y Cyngor Sir i weld a ellid cymryd camau pellach i ddelio â'r sefyllfa. Diolchodd y Cadeirydd i'r heddwad am ei bresenoldeb. Materion yn codi o'r cofnodion: roedd y Clerc wedi cysylltu â'r Cyngor Sir am y materion oedd yn codi o gyfarfod mis Chwefror, ond nid oedd fawr i'w adrodd. Ni chafwyd unrhyw wybodaeth bellach am y garafan ger Penberth.

Gohebiaeth; daethai cais oddi wrth Grŵp Datblygu Ysgol Trefeurig am gymorth i dalu rhent yr Ysgol hyd at 8 Rhagfyr, a chytunwyd i gyfrannu £250. Taliadau: cymeradwywyd taliadau ar gyfer cynnal a chadw hysbysfyrdau, glanhau y cabanau bysiau, trwsio map y pentref, aelod yn mynychu un o gyrsiau Un Llais Cymru ac aelodaeth blyneddol Un Llais Cymru. Cynllunio: cais i godi adeilad menter wledig ger Ffordd y Garth, Penrhyn-coch – dim gwrthwynebiad. Adroddiadau ar gyfarfodydd a fynychwyd: roedd Mel Evans wedi bod ar gwrs am gynllunio o dan nawdd Un

Llais Cymru'n ddiweddar. Roedd Mel Evans a'r Cynghorydd Sir wedi cwrdd â thirfesurydd y Cyngor Sir i drafod llefydd pasio ar Ffordd Salem; byddai'r CS yn paratoi cynlluniau. Roedd y Cadeirydd a Gwenan Price wedi bod yn y seremoni pan roddwyd Rhyddid y Sir i Matthew Wilson am ei ddewrder wrth wasanaethu yn Afghanistan.

Unrhyw faterion eraill: dywedodd y Cadeirydd fod rhai aelodau o'r cyhoedd wedi holi am bresenoldeb y Cynghorydd Sir pan oedd materion cyllid yn cael eu trafod. Roedd y Cadeirydd wedi egluro ei bod o fantais i'r Cyngor fod y Cynghorydd Sir yn bresennol yn y cyfarfodydd gan ei fod yn gallu taflu goleuni ar sawl mater a drafodid, ond gan nad oedd yn aelod o'r Cyngor, nid oedd ganddo bleidlais ac nid oedd yn gallu cyfrannu i'r trafodaethau heb i'r Cadeirydd ofyn iddo wneud hynny. Fe godwyd nifer o faterion ynglŷn â chyflwr y ffyrdd, gadael ysbwriel ger ochr ffyrdd, a baw cŵn ar y ffyrdd yn ardaloedd gwledig y gymuned gan bedwar o'r cynghorwyr.



Morlan
Canolfan ffydd a diwylliant
Centre for faith and culture

- C21 yn Morlan (7.30, 22 Mai)
- Bwrw Bol (7.30, 12 Mehefin)
- Taith Gerdded Flynyddol Morlan (10 Gorffennaf): yr ydym yn mentro y tu allan i Aberystwyth ar gyfer ein Taith Gerdded eleni. Bydd y daith yn mynd ar hyd llwybrau hen goedlannau gan gynnwys Llwybr Llên Llanfihangel Genau'r Glyn.

Manylion llawn ar wefan Morlan:
www.morlan.org.uk
CROESO CYNNES I BAWB!
Morlan, Morfa Mawr, Aberystwyth
SY23 2HH
01970-617996; morlan.aber@gmail.com



Iwan Jones

Gwasanaethau Pensaernïol

Cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd, estyniadau ac addasiadau

Gellimanwydd, Talybont,
Ceredigion SY24 5HJ
helen.iwan@btinternet.com

01970 832760



C. TREFOR EVANS

TREFNWR ANGLADDAU



"PLAS BRONGENAU"
LLANDRE
ABERYSTWYTH
Ffôn 820013



Eirian Reynolds,
Tech. S.P.

**GWASANAETH IECHYD
A DIOGELWCH**

AROLYGON DIOGELWCH
ASESIADAU PERYGLON
ARCHWILLADAU
DAMWEINIAU
HYFFORDDIANT

GWASANAETH CYFLAWN
I GADW CHI A'CH
GWEITHLU YN DDIOGEL

**01970 820124
07709 505741**

**SWYDDFA'R POST
BOW STREET**

◇◇◇◇◇◇◇◇◇◇

**NWYDDAU
MELYSION
CYLCHGRONAU
CARDIAU CYFARCH
PAPURAU DYDDIOL
A'R SUL**

◇◇◇◇◇◇◇◇◇◇

JOHN A MARIA OWEN

**GWASANAETH
TEIPIO**

GWAITH PRYDLON A CHYWIR
PRISIAU CYSTADLEUOL
PROSESYDD GEIRIAU
PRINTYDD LLIW

IONA BAILEY

PEN-Y-BRYN
SWYDDFFYNNON
YSTRAD MEURIG

01974 831580


Gwaith Bricio

R+R

Adeiladau newydd,
Estyniadau,
Gwaith Carreg,
Patios

Rhod: 07815121238
Rich: 07709770473

Dargyfeirio arfaethedig i ran o Lwybr Troed 5/10 Aberceiro, Bow Street 2013



Yn dilyn ymholiadau gan Network Rail mae Cyngor Sir Ceredigion yn cynnig dargyfeiriad i'r llwybr troed yma. Y bwriad ydyw lleihau nifer y croesfannau ar hyd y rheilffordd er mwyn gostwng atebolrwydd Network Rail a chreu llwybr sy'n fwy diogel i'r cyhoedd. Lleolwyd y groesfan yn Aberceiro ar dro yn y rheilffordd sydd yn ei gwneud yn anodd i bobl weld y trenau yn mynd a dod. Mae hyn yn fwy perthnasol ar hyn o bryd gan fod yna drafodaeth ynglŷn â ehangu'r gwasanaeth ar y rheilffordd i drên bob awr rhwng Aberystwyth a Machynlleth.

Bydd y llwybr arfaethedig yn un cadarn wedi ei adeiladu o garreg, o raddiant hawdd a bydd yn rhydd o anifeiliaid fferm. Bydd yn dilyn ochr y rheilffordd tuag at y groesfan ger Maes Ceiro, cyn croesi i ymuno gyda'r llwybr i fyny i Ruel Uchaf ac ymlaen i'r rhwydwaith ehangach o lwybrau.

Gwelir y llwybr presennol ar y map wedi ei farcio mewn llinell ddu drwchus ddi-dor (A-B-C-D-E)

Mae'r llwybr arfaethedig mewn llinell ddu drwchus doredig (E-F).

Dim ond cynnig ydyw yr uchod ar hyn o bryd - mae llawer yn dibynnu a fydd Network Rail yn ariannu'r gwaith a hefyd ar ymateb y trigolion lleol. Os ydych am fwy o fanylion, am drafod y mater ymhellach neu roi eich ymateb i'r cynnig gellwch gysylltu â Eifion Jones yng Nghyngor Sir Ceredigion yn Aberaeron - ffôn 01545 572 315 Eifion.Jones@ceredigion.gov.uk.


Taith gerdded y mis

Brynllys ag Eglwys y Borth

Man dechrau: Gyferbyn â Fferm Brynllys

Map: OS Explorer 213. GR 619888.

Pellter: 3.5 milltir hawdd.



Ymlaen i'r chwith dros y bontbren ac i'r dde ar hyd y llwybr nes cyrraedd Ynys Fergi (Animalarium). I'r chwith o'r adeiladau a'r tŷ ac ar hyd y feidr a chyrraedd Eglwys y Borth. Trwy'r iet ac ymlaen ar hyd y llwybr nes cyrraedd yr afon Leri a'r bontbren. Ewch yn syth ymlaen o'r bontbren i gyrraedd y ffordd a throi i'r chwith nes cyrraedd Fferm Pantydwn. Ewch drwy iet ar y dde ar ôl yr adeiladau ac ymlaen a throi ychydig i'r dde lle gwelwch iet o'ch blaen ac anelu am Penywern. Ar ôl cyrraedd y ffordd troi i'r dde a dilyn y ffordd 'nôl i Brynllys.

Rees Thomas



**COFFI BOREUOL
BYRBRYDAU POETH NEU OER
CINIO
TE PRYNHAWN
CREFFTAU AC ANRHEGION**

Ar agor saith niwrnod yr wythnos Mehefin, Gorffennaf, Awst a Medi (fel arall, ar gau ar ddydd Llun)

Siop **Treasures**, Tlysau a gemwaith (yn cynnwys dylunwyr Cymreig), scarffiau a chyffwisgoedd priodasol.

Gwasanaeth enwai tai ar lechen a llwyau caru. Deunyddiau gwnio, yn cynnwys offer DMC, Anchor, Heritage, Derwentwater ac eraill.
Ffôn: 01970 820122

**GWASANAETH
GARDDIO
MYNACH**

**Torri Porfa, Torri
Gwrych a Strimmio,
Disgownt i
Bensiynwyr.**

**Ffôn 01974 261758
07792457816**

(Nid oes yr un gwaith yn ormod)

**Cofiwch
gysylltu â ni**

**ytincer@
googlemail.
com**

O'r Cynulliad - Elin Jones

Un o'r materion cyntaf i mi godi yn y Cynulliad ar ôl dychwelyd o doriad y Pasg oedd herio penderfyniad gwarthus Amazon i wrthod gwerthu llyfrau Cymraeg yn electronig ar Kindle. Mae hyn yn gwbl ymarferol i wneud ac mae cwmni cyhoeddi'r Lolfa, a siŵr o fod eraill, yn awyddus i werthu yn electronig. Gofynnais i'r Gweinidog dros Ddiwylliant a Chwaraeon, John Griffiths AC am ddatganiad ar y camau y bydd yn ei gymryd i fynd mewn i drafodaeth gyda chwmnïau sy'n gwerthu llyfrau yn electroneg ynghylch eu cyfrifoldeb i gynnwys gwerthu llyfrau Cymraeg yn electroneg ac yn fyd-eang. Yn ddiweddar, mae miloedd o bobl wedi arwyddo deiseb yn galw ar Amazon i ganiatáu cyhoeddi e-lyfrau Cymraeg ar y Kindle. Mae mwymwy o bobol yn prynu llyfrau yn electronig erbyn hyn, ac mae'n bwysig fod yna ddewis llyfrau Cymraeg ar y cyfrwng yma. Wrth gwrs, fe rydyn ni'n ffodus yng Ngheredigion fod gennym nifer o siopau lleol sy'n gwerthu ystod dda o lyfrau Cymraeg.

Mae sector elusennol a gwirfoddol Ceredigion wedi cael sawl ergyd yn ddiweddar. Yn gyntaf, Ffagl Gobaith ac yn y mis yma, Rhoserchan a phafiliwn Bont. Mae'r dirwasgiad a'r toriadau yn bwrw pob sector.

Newyddion trist oedd clywed fod Rhoserchan, Canolfan adsefydlu cyffuriau ag alcohol ger Aberystwyth wedi cau. Fe weithiodd y cyfarwyddwyr yn gweithio'n galed iawn i wneud Rhoserchan yn gynaliadwy. Yr wyf yn gobeithio nad yw popeth wedi ei golli a byddaf yn gweithio gydag unrhywun sydd â diddordeb i weld a yw'n bosibl i atgyfodi'r ganolfan breswyl yn Rhoserchan. Teimlaf yn gryf fod angen canolfan o'r fath o hyd.

Trist hefyd oedd clywed fod y drysau wedi cau ar Bafiliwn Bontrhydfendigaid am y tro. Mae'r pafiliwn wedi bod yn gaffaeliad aruthrol ers iddo agor sawl degawd yn ôl yn enwedig ers iddo gael ei ailadeiladu yn y blynyddoedd diwethaf. Fel eraill, rwyf wedi mwynhau llawer o ddigwyddiadau yno a dwi'n mawr obeithio y daw eraill i ail-agor y drysau cyn hir.



TREFEURIG



John Jones ac aelodau Trefeurig 60+

Cymdeithas Trefeurig 60+

Cynhaliwyd cyfarfod dan nawdd Cymdeithas Trefeurig 60+ dydd Sadwrn 27 Ebrill yn Neuadd yr Eglwys Penrhyn-coch ar achlysur ymddeoliad John Jones fel llyfrgellydd teithiol yr ardal. Roedd pawb yn awyddus i fynegi eu gwerthfawrogiad o wasanaeth arbennig John dros nifer fawr o flynyddoedd. Mae'r ffilm *Sleep furiously* gan Gideon Koppel yn gofnod diddorol o'r gymuned a rôl gwasanaeth y llyfrgell deithiol.

Swydd newydd

Dymuniadau gorau i Owen Roberts, Bwlchydderwen. sydd wedi rhoi gorau i'w swydd fel darlithydd yn Adran Hanes Prifysgol Aberystwyth a mynd yn reolwr ymchwil a chysylltiadau cyhoeddus i Elin Jones, AC Ceredigion.



Huw Morris yn siarad â'r Llyfrgellydd newydd Jo Mitchell

Ymddeoliad - Diolch

Dymuna John Gwynn Jones, Awelon, Capel Seion ddiolch o waelod calon i'r trefnyddion a'r ffrindiau oll am baratoi gwledd yn Neuadd yr Eglwys Penrhyn-coch i ddathlu ei ymddeoliad o fod yng ngofal Llyfrgell deithiol am 44 mlynedd yn Sir Aberteifi. Dyfed a nawr Ceredigion. Diolch yn fawr.



Llongyfarchiadau i Gronw Downes, Glanrafon, ar gael anrhydedd (132 o farciau) yn ei arholiad trombôn Gradd 2. Da iawn ti! Llongyfarchiadau hefyd i Betsan - 1af am lefaru lleol i flwyddyn 1 + 2 a Gronw - 3ydd (ar y trombôn) am unawd offeryn cerdd cynradd lleol yn Eisteddfod Penrhyn-coch.

DOLAU

Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn yn ddwys â Mr John Rees, Talar Deg ar farwolaeth sydyn ei wraig Mrs Mabel Rees dechrau'r mis.

Hefyd cydymdeimlwn â Mrs Dwysli Peleg-Williams ar golli ei mam yn Llanuwchllyn.

Pen blwydd hapus

Llongyfarchiadau mawr i Mrs Nest Davies, gynt o Nantgwyn (cyn hynny - Tŷ Nant) a ddathlodd ben blwydd arbennig iawn yn ddiweddar.

Rali CFFI Ceredigion

i'w chynnal ar Fferm Berthlwyd, Tal-y-bont

Dydd Sadwrn, 15 Mehefin

Cyfres o gystadlaethau ar thema'r 'Celtiaid' ymlaen trwy'r dydd gan ddechrau am 9 y bore.

Dawns y Rali

i ddilyn yn Fferm Neuadd Fawr, Tal-y-bont

Croeso cynnes i bawb

Cymanfa Ganu Rali CFFI Ceredigion

yng Nghapel Bethel, Tal-y-bont

Nos Sul, 16 Mehefin, 7.30 yh

Llywydd:

Mrs Eirwen Hughes, Pen-cwm

Arweinydd: Peter Leggett

Artistiaid: Elen Thomas,

Aelodau CFFI Tal-y-bont ac

Aelodau Ysgol Sul, Bethel

Cyfeilydd: Catrin Jenkins

Mynediad trwy raglen:

Oedolion - £4 a Dan 16 oed -£2



Fel unrhyw un call a normal a chyfrifol, nid oes gennyf ddim i'w ddweud wrth rywun sydd yn camdrin plant a merched a chredaf bod angen eu cosbi a'u carcharu. Dylestwydd gyntaf cymdeithas wâr yw gwarchod ei haelodau gwanaf.

Ond y mae digwyddiadau diweddar wedi peri pryder i mi, sef achosion Jimmy Saville a Stuart Hall. Ni ellir sôn amdanynt yn fanwl am resymau cyfreithiol ond i mi, mae hynny yn rhyddhad oherwydd gallaf sôn am egwyddorion sylfaenol yr achosion ac esbonio paham fy mod yn meddwl fod pryderon eraill i gymdeithas ynglŷn â'r achosion a hynny ar ben y cyhuddiadau gwreiddiol.

Nid oedd gennyf i erioed - hyd yn oed yn blentyn - lawer o gewc ar Jimmy Saville. Fe'i gwelwn yn gomom a phlentynnaidd. Pa ddyn call yn ei oed a'i amser a fynnai wisgo dillad chwarae o hyd a lliwio ei wallt fel dynes? I mi a fy nghyfnitherod, roedd yn ddyn a godai ddincod ar ddannedd ac, a bod yn onest, nid oeddwn yn rhyfeddu dim pan ddechreuodd y storïau amdano godi i'r wyneb. Er na chyfarfum ag ef erioed yn y cnawd, yr oeddwn wedi gweld digon arno ar y teledu i weld mai ffals oedd ei ddiddordeb mewn plant. Petai yn dal yn fyw, fe fyynnwn innau weld ei gosbi i'r eithaf. Ond dyna'r broblem, mae wedi marw heb ei gosbi ac ni ellir ei godi o'i fedd i wneud hynny fel y cododd yr Adferwyr Cromwell i'w grogi ar ôl i'r Brenin Siarl gael ei adfer. Yr ydym yn fwy datblygedig heddiw. Felly a oes unrhyw bwynt mewn difrif neilltuo amser ac arian heddlu i ymchwilio i'r achos? Sawl plentyn bach neu ferch ifanc sydd yn dioddef poen ac anfri heddiw ac na fedr gael unrhyw gymorth am fod yr heddlu yn rhy brysur yn erlid dyn marw? Y mae angen ymchwiliad i sut y medrodd Jimmy Saville gael mynediad i ysbytai ac ysgolion, ac y mae angen i'r rhai y bu yn eu camdrin gael cymorth, ond onid gwell fai sefydlu comisiwn seneddol i wneud hynny yn hytrach na gwastraffu amser heddlu? Petawn i yn brif gopyn, fe fyddwn yn gwarafun gwario fy adnoddau prin ar ymchwil i droseddau na ellid erlyn neb amdanynt heb seance!

Y mae achos Stuart Hall yn wahanol, y mae ef yn dal yn fyw i ddechrau arni. Ond mae yn wahanol mewn ffordd arall, hefyd, hyd y gwn i, ni amharodd ar blant nag ar rywun a oedd yn fregus yn gorfforol a meddyliol ac ni fu trais corfforol yn defnyddio grym ychwaith. Fe fu trais, mi

Colofn Mrs Jones

dybiaf, ond trwy berswad nid trwy rym bon braich ac onid yw yn bwysig gwahaniaethu rhyngddynt? Yn gam neu yn gymwys, saethwch fi neu beidio am ei ddweud ond tybed na ellid gosod peth o'r bai ar y merched eu hunain fan hyn? Pan oeddent hwy yn tyrru o'i gwmpas, a oeddent wedi gofalu edrych eu hoed ynteu ymbincio i edrych lawer hyn? A minnau yn cofio bod yn f'arddegau, fe wn yr ateb i hynna. Yn aml y mae'n amhosibl gwybod oed merch rhwng pymtheg a deunaw ar ei gwisg a'i cholur ac ni fedrwyd ddisgwyl i ddyn ofyn am ei thystysgrif geni.....

Mae gennyf ychydig o gydymdeimlad a dynion sydd yn cyflawni yr hyn y mae'r Americanwyr yn ei alw yn 'statutory rape', sef cael rhyw gyda merch sydd dan oed ond yn ei harddegau, rhyw sydd yn anghyfreithlon dim ond oherwydd oed y ferch dan sylw ond sydd yn cael ei ystyried yn rhyw gyda chaniatâd a bendith y ferch mewn pob ffordd arall.

Fe roedd Hall ar fai yn manteisio arnynt, oedd, wrth reswm, ond tybed nad oedd rhieni ac athrawon y merched ar fai hefyd am nad oeddynt wedi eu dysgu i adnabod drwg gymhellion ac i ymdopi a hwy? Onid oedd neb wedi eu dysgu i feddwl nad oedd enwogrwydd ac arian enwogrwydd i'w gael heb waith ac ymdrech a thalent mwy na gwneud un cyfweiliad gyda dyn nad oedd ddim mwy na gwas y cyfryngau ei hun? Ni all neb ddysgu merch i ochel trais gyda grym, er fe ellir ei dysgu i beidio a chymryd risgiau annerbyniol megis bawdheglu, o'r herwydd, y mae angen cosbi trais o'r fath yn galed. Ond fe ellir eu dysgu i osgoi trais trwy berswad trwy ddysgu ymarfer synnwyr cyffredin a deddf tebygolrwydd. Y mae gwahaniaethau rhwng y ddau fath o drais a fe fyddwn i fy hun yn ddigon hapus i weld y gyfraith yn adlewyrchu hynny, a gosod y peth yn amrwd, fedr neb fy mherswadio i fod hudo merch cynddrwg a'i churo i ildio.

A'r wers bwysicaf un, efallai, yw cofio mor wagsaw yw bywyd y 'celebs' a magu ein plant i weld nad enwogrwydd mewn na gêmâu na chyfryngau sydd yn bwysig ond gwerth cymdeithasol ac enediol unigolyn.

Ysgol Pen-llwyn

Ymweliad yr RNLI

Fe groesawon ni Sam a Dylan o'r RNLI i'r ysgol yn ddiweddar. Fe fwynhaodd y plant ddysgu sut i gadw'n ddiogel ar y traeth a dysgu am ystyr y gwahanol faneri sy'n hedfan yn ogystal a beth i'w wneud os mewn perygl yn y môr. Mi oedd yn dda cael gofyn amrywiaeth o gwestiynau a syndod oedd darganfod fod ambell i forfil yn nofio heibio yn agos iawn i'n traethau. Er mawr ryddhad i bawb nid ydynt yn hoff o fwyta pobl serch hynny! Rydym yn edrych ymlaen at gael bore gyda Sam ar y traeth ymhen ychydig i gael profiad ymarferol.

Te Parti Cathy

Fe fu Cathy, ein cogyddes, wrthi'n brysur yn ddiweddar yn trefnu te i godi arian i Ymchwil y Galon. Fe ddaeth criw ynghyd i flasgu yr amrywiaeth o gacennau hyfryd oedd wedi eu paratoi. Da yw nodi fod tua £250 wedi ei godi i'r elusen.

Roedd y plant wedi bod wrthi hefyd yn helpu gyda'r gwaith coginio fel y gwelwch yn y llun.

Jack Barron

Mae Jack wedi cael y cyfle i fynychu gweithdai a baratoir gan yr Heddlu yn Aberystwyth. Mi fu a diddordeb yng ngwaith yr heddlu ers amser ac mae'n gyfle gwyh iddo ddarganfod os efallai fod dyfodol iddo fel heddw. Yr ydym yn ddiolchgar iawn iddo yn yr ysgol am ei sgiliau pêldroed hefyd. Fe berfformiodd yn arbennig yn ddiweddar mewn cystadleuaeth i ysgolion lleol.

Perfformiad WCW

Mi fuodd dosbarth 1 yn mwynhau perfformiad WCW yng Nghanolfan y Morlan yn ddiweddar. Roedd hanes yr ardd a'r pili pala wedi creu argraff fawr ac mi oedd yn brofiad arbennig cyfarfod â'r cymeriadau ar ddiwedd y perfformiad.



Parhad o t13

1af yn y Grŵp Dawnsio Hip-Hop/Stryd/Disgo (neu gyfuniad): Bl. 10 a dan 19 oed. Chwith i dde: Bethan Evans, Gwawr Keyworth, Joseph Scannell, Lois Jones, Manon Izri a Bethan Pearce

2il yn y Parti Merched Bl. 7, 8 a 9: Rhes gefn; Alwen Morris, Alaw O'Rourke, Anest Eirug, Gwenno Thomas, Cari O'Rourke, Siwan Davies a Siwan Phillips; Rhes flaen; Beca Williams, Cati Fychan ac Erin Gruffydd.

Chwith i Dde: Anest Eirug – 1af yn yr Unawd Merched Bl. 7 – 9, Cyflwyno Alaw Werin Unigol Bl. 7, 8 a 9, a'r Deuawd Cerdd Dant Bl. 9 ac iau; Beca Williams -1af yn yr Unawd Cerdd Dant Bl. 7-9 a'r Deuawd Cerdd Dant Bl. 9 ac iau; Christopher Gillison – 1af yn yr Unawd Chwythbrennau Bl. 10 a dan 19 oed; Mared Pugh-Evans – 1af yn yr Unawd Telyn Bl. 10 a dan 19 oed; Alwen Morris – 1af yn y Llefaru Unigol Bl. 7 – 9.



Ysgol Craig yr Wylfa

Ymweliad

Bu disgyblion Cyfnod Allweddol 2 yn ymweld â Llyfrgell Genedlaethol Cymru ar Fai 1af ar gyfer arddangosfa fawr ‘Dilyn y Fflam’ a ariannwyd gan Ymddiriedolaeth Etifeddiaeth Prydain. Roedd yr arddangosfa yn tywys y plant ar daith hynod o sefydlu’r Gêmau Olympaidd yng ngwlad Groeg (776BC), a thranc y gêmau dros fil o flynyddoedd yn ddiweddarach, hyd at rôl bwysig Prydain pan gafodd y Gêmau eu hail-sefydlu yn Athens yn 1896 a’r penodau arwyddocaol yn hanes y Gêmau byth ers hynny. Cafodd pawb brynhawn wrth eu bodd. Diolch yn fawr i Rhodri Morgan a gweddill y staff yn y Llyfrgell Genedlaethol am y croeso a’r cyfle unigryw yma.

Cyfnod Sylfaen I baratoi’r ardd yng nghefn yr ysgol. Bu’r plant yn brysur yn plannu hadau ac rydym yn edrych ymlaen at weld y llysiau’n tyfu.

Cynhaliwyd Cinio i’r Gymuned ar ddydd Mercher, Mai 9fed. Daeth 15 aelod o glwb yr henoed ynghyd i gael clonc a mwynhau cinio blasus Wendy Jones ein Prif Gogydd. Mae’r plant yn edrych ymlaen yn arw at ein hymweliad i ddiddanu aelodau clwb yr henoed yn neuadd y pentref cyn diwedd y mis.

Diolch yn fawr iawn i Joy Cook a Jane Leggett am wirfoddoli i gynorthwyo gyda gweithgareddau darllen yn yr ysgol. Mae’r plant yn elwa’n fawr ac yn mwynhau’r cyfleoedd yma’n fawr iawn. Diolch o galon am eich amser a’ch caredigrwydd.

cystadleuaeth yn y ffair wyddoniaeth a pheirianeg a gynhaliwyd ym Mhrifysgol Aberystwyth yn ddiweddar. Wrth grwydro o gwmpas y stondinau gwahanol, bu rhaid i’r plant lanw holiaduron gan ateb cwestiynau gwyddonol. Lily gafodd y sgôr uchaf. Da iawn ti!



Ymwelwyr

Diolch yn fawr i Casper (Mam Lily) am ddod i helpu plant y

Gwobr

Llongyfarchiadau i Lily Pryce o flwyddyn 6 am ennill



Llongyfarchiadau i Glyn, Courtney, Lily a Skye am ennill tystysgrif Disgybl yr Wythnos.



Priya a Charlotte wedi llwyddo gwahanu’r tywod a’r naddion haearn gan ddefnyddio magnet.



eich gwefan leol
www.trefeurig.org
your local website

newyddion etc. i / news etc. to:
golygydd@trefeurig.org

William Howells,
Rhyd-y-gof, Penrhyn-coch,
Aberystwyth SY23 3EQ

R.J. Edwards
Adeiladau Fferm y Cwrt
Cwrt Farm Buildings
Penrhyn-coch

Contractiwr, masnachwr
gwair a gwellt
Arbenigwr ar ailhadu
Cyflenwi a gwasgaru calch,
slag a Fibrophos
Lori, turiwr a malwr
i’w llogi
Cyflenwi cerig mân

01970 820149
07980 687475

TACSI EDDIE
Perchennog:
Connie Evans,
Gwawrfryn,
Penrhyn-coch

01970 828 642
07790 961 226

Siop
SGIDIAU GWDIHW
8 Ffordd Portland, Aberystwyth
SY23 2NL
01970 617092

 Gwasanaeth 
GOFAL TRAE
Ceirpodydd /podiatrydd graddedig
ac wedi cofrestru efo’r
H.C.P.C., S.R.Ch., M.Ch.S., B.S.C.Pod,
Dip.Pod.Med.

Ysgol Penrhyn-coch

Pêl-droed yr Urdd

Teithodd tîmau pêl-droed yr ysgol i lawr i gaeau Blaendolau i gymryd rhan yn nhwrnament pêl-droed yr Urdd, Rhanbarth Ceredigion. Rhannwyd yr holl dîmau i grwpiau amrywiol gyda pawb yn chwarae nifer o gêmiau. Llwyddodd y tîm merched i gael dwy gêm gyfartal a cholli dwy gêm. Da iawn iddynt am eu holl ymdrechion. Yn yr adran bechgyn, llwyddodd y tîm i ennill un gêm a chael dwy gêm gyfartal. O ganlyniad, fe’u gwelwyd yn llwyddo i symud ymlaen i’r rownd nesaf gan gwrdd a thîm Felin-fach. Llwyddwyd i ennill y gêm honno gan symud ymlaen i chwarae yn erbyn Aberaeron ac yna Llandysul. Cafwyd gêm gyfartal yn erbyn Aberaeron ond collwyd yn erbyn Llandysul. Llongyfarchiadau i’r ddau dîm am chwarae mor dda.

Eisteddfod Penrhyn-coch

Bu mwyafrif o ddisgyblion yr ysgol yn cystadlu yn Eisteddfod Penrhyn-coch. Gwelwyd nifer dda iawn o ddisgyblion yn cefnogi ac yn cystadlu yn unigol neu fel aelodau o grŵp. Llongyfarchiadau i bawb a fu wrthi yn cystadlu.

Trawsgwlad

Bu pedwar o ddisgyblion yr ysgol yn cystadlu yn Nhrawsgwlad Rhanbarth Ceredigion yn Aberaeron. Y pedwar a fu yn

cystadlu oedd Tyler Nash, Clay Nash, Stephanie Merry a Zaid Khan Ali. Yn anffodus methodd Llion Edwards a rhedeg gan ei fod yn sal. Llongyfarchiadau iddynt am wneud mor dda gyda phob un yn llwyddo i orffen y cwrs anodd.

Eisteddfod Bont

Er mwyn codi arian tuag at gostau teithio i Eisteddfod Llangollen, teithiodd aelodau o gôr yr ysgol i fyni i gystadlu yn Eisteddfod Teulu James ym Mhontrhydfendigaid. Gwelwyd y parti Unsain, y Côr a’r parti llefaru i gyd ar y llwyfan. Llwyddwyd i ennill y wobr gyntaf ar y parti unsain, ail ar y côr a chydodd drydedd ar y parti llefaru. Da iawn iddynt am eu gwaith arbennig a diolch i’r rhieni am fod mor barod i’w cludo yno. Defnyddir yr arian a enillwyd tuag at gostau ymweliad y Côr a Llangollen ym mis Gorffennaf.

Rasio Moch

Ar noson braf ar ddechrau’r tymor newydd, cafwyd llawer o hwyl a sbri yn Neuadd Penrhyn-coch wrth i’r ysgol drefnu noson o rasio moch! Er i ambell i un feddwl ein bod yn rasio moch a phedair coes, y gwir amdani oedd mai moch pren a ddefnyddwyd. Roedd y noson yn debyg i noson rasio ceffylau a geir yn aml ond y tro hwn, y dasg oedd rasio moch pren o un pen y cwrs i’r diwedd. Rhaid oedd defnyddio rhaff i wneud hyn.



Ffanffer pres Seremoni Tlws yr Ifanc



Parti Llefaru



Ensemble - pob hwyl iddynt ym Moncath

Cafwyd llawer o hwyl wrth i blant ac oedolion golli chwys yn ceisio ennill. Cafwyd 8 ras yn y rownd gyntaf gyda’r enillwyr yn symud i’r rownd gyn derfynol ac yna’r pedwar gorau yn y rownd derfynol. Ar ddiwedd y noson, gwelwyd dwy fam yn erbyn dau blentyn yn y rownd derfynol gan gynnwys mam yn erbyn ei mab. Ar ddiwedd y rasio, Dylan Edwards fu’n fuddugol. Cafwyd llawer iawn o hwyl gyda phawb a ddaeth yn mwynhau. Diolch i Meinir o Fanc Barclays a ddaeth i gefnogi gan sicrhau nawdd o £1 am £1. Erbyn cyfri’r arian a thalu

allan costau codwyd tua £1,700 i goffrau’r Gymdeithas Rieni ac Athrawon. Diolch i Llion am ddod a’r moch ac am drefnu’r hwyl. Diolch i Bethan a Sioned am lawer o’r trefniadau.

Hoci

Bu tîmau yr ysgol wrthi yn cystadlu yn nhwrnamentau y cylch yn ddiweddar. Cafwyd gêmiau caled iawn yn erbyn tîmau eraill y gynghrair. Er chwysu llawer, ni aethant drwodd i’r rownd derfynol. Da iawn iddynt am eu chwarae da.

ANIFEILIAID TEW

eu hangen i’w lladd mewn lladd-dy lleol

Cysylltwch â **TEGWYN LEWIS**

01970 880627

SIOP A SWYDDFA BOST PENRHYN-COCH

Perchennog: Lawrence Kelly

AR AGOR

Llun - Sadwrn

7 y bore - 9 yr hwyr

Sul

7 y bore - 7 yr hwyr

Papurau dyddiol a’r Sul, llyfrgell fideo, cardiau cyfarch

siop drwyddiedig

01970 828312

Ysgol Rhydypennau

Noson Adloniant

Er mwyn dathlu Neuadd Rhydypennau ar ei newydd wedd, cynhaliwyd noson i ddiolch i'r sawl yn y gymuned a fu'n paentio ac yn adnewyddu'n ddiweddar. Agorwyd y noson dan ofal Mr Richard Gethin a chyflwynodd Mr Dic Lewis eitemau amrywiol gan blant yr ysgol gan gynnwys perfformiad ar y piano gan Catrin Manley, alaw werin gan Rhys Tanat, eitemau amrywiol gan y parti canu unsain a'r parti cerdd dant yn ogystal â'r ymgom. Dymunwyd pob lwc i'r Parti Cerdd Dant sy'n cynrychioli Ceredigion yn yr Eisteddfod ar ddiwedd y mis a daeth y noson i ben gyda phaned, raffl a chlonc.

Blwyddyn 6

Fel rhan o waith Addysg Bersonol a Chymdeithasol blwyddyn 6; trefnwyd diwrnod cyfan o godi ymwybyddiaeth y plant o beryglon camddefnyddio alcohol a chyffuriau. Yn ystod y sesiynau, bu'r plant yn cwblhau tasgau perthnasol ac yn cydweithio mewn grwpiau trafod.

Penwythnos Glan-llyn

Ar yr 22-25ain o Ebrill fe deithiodd 26 o blant blynyddoedd 5 a 6 i wersyll yr Urdd, Glan-llyn am dridiau o ddifyrwch. Yn ystod y cymdeithasu a'r hwyl, bu'r plant yn brysyr iawn yn mwynhau nifer o weithgareddau amrywiol gan gynnwys taith ar Lyn Tegid, canŵio, nofio, cyfeiriannu a bowlïo deg. Dychwelodd y plant i'r ysgol b'nawn Mercher wedi mwynhau'r profiad yn fawr iawn, er hyn roedd nifer ohonynt braidd yn flinedig.

Chwaraeon

Ar y 18fed o Ebrill, bu tîm pêl-droed bechgyn a merched yr ysgol yn cystadlu ym mhencampwriaeth Yr Urdd ar gaeau Blaendolau. Cystadleuaeth rhwng holl ysgolion Ceredigion oedd hon ac yr oedd ansawdd y pêl-droed o'r safon uchaf. Er i'r merched frwydro yn galed, methu wnaethant

i fynd ymlaen i'r rowndiau cyn-derfynol. Mewn grŵp anodd iawn chwaraeodd y bechgyn yn neilltuol o dda a churo nifer o dimoedd da yn eu grŵp. O ganlyniad i hyn, aethant ymlaen i'r rownd go-gyn derfynol a dyna oedd diwedd y daith iddynt. Llongyfarchiadau mawr i chwaraewyr y ddau dîm am eu hymdrechion ardderchog.

Pêl-rwyd a Phêl-droed

Ar y 19eg o Ebrill cynhaliwyd cystadleuaeth pêl-rwyd a phêl-droed cylch Aberystwyth. Chwaraeodd bechgyn y tîm pêl-droed yn wych gan guro Ysgol Myfenydd ac Ysgol Comins-coch ar eu ffordd i'r rownd gyn-derfynol; yno, fe lwyddodd y bechgyn i guro Ysgol Craig yr Wylfa a sicrhau lle yn y rownd derfynol. Mewn ffeinal gyffrous ac agos iawn gyda'r Ysgol Gymraeg, roedd y sgôr ar ddiwedd y gêm yn gyfartal. Felly bu'n rhaid penderfynu'r bencampwriaeth drwy giciau o'r smotyn; ond yn anffodus collwyd y gystadleuaeth 8 gôl i 7. Llongyfarchiadau mawr i'r bechgyn nid yn unig am yr orchest ond hefyd rhaid nodi mai bechgyn blwyddyn 5 oedd mwyafrif y tîm; felly mae'r flwyddyn nesa'n argoeli'n dda.

Brawdodd merched y tîm pêl-rwyd yn frwdfrydig iawn yn ystod y prynhawn, ond methu wnaethant i fynd ymhellach na gêmiau'r grŵp. Hen dro!

Trawsgwlad

Ar y 3ydd o Fai bu nifer o blant yr ysgol yn brwydro yn erbyn holl ysgolion Ceredigion yng nghystadleuaeth Trawsgwlad y Sir yng Nghlwb Rygbi Aberaeron. Llongyfarchiadau mawr i'r canlynol am orffen yn y tri cyntaf; Lydia Powell Bl 4-1af; Griff Lewis Bl 4-2il, Siân Duckett bl 5-3ydd. Ardderchog.

Clwb Cant

Dyma ganlyniad fis Mai:-
Roland Rees, Brysgaga - £25
Debbie Salvoni, 1 Penrhiw - £15
Julie Bent, 4 Y Ddôl - £10



Criw Glan-llyn ar Lyn Tegid



Trawsgwlad Ceredigion-Sian Duckett, Griff Lewis a Lydia Powell



Addysg Bersonol a Chymdeithasol



Adloniant yn Neuadd y Pentref

Tasg y Tincer




Llew

Diolch i'r tri liwiodd llun y Dewin Doeth yn dathlu pen blwydd Rala Rwdins y mis diwetha. Roedd eich tân gwyllt a'ch rocedi yn werth eu gweld. Diolch i chi, Lily May Welsby o Benparcau a Lois Medi o Landre, am eich lluniau hyfryd, ond ti, Llew Schiavone, sy'n ennill y tro hwn, ac rwy'n credu mai dyma'r tro cyntaf i ti gystadlu, felly llongyfarchiadau mawr.

Does dim angen i mi eich atgoffa o'r hyn sy'n digwydd ar fferm Cilwendeg ger Boncath, ar ddiwedd y mis, dwi'n siŵr. Ie, Eisteddfod yr Urdd Sir Benfro, wrth gwrs. Mae cymaint i'w wneud ar y maes, heblaw am y cystadlu arferol – digon o arddangosfeydd, wal ddringo, dros 200 o stondinau o bob math, beiciau cwad, chwaraeon o bob math, trênn bach, caffï'r we, ffair – a digon o fwyd a diod. Cewch wrando ar fandiau byw ac rwy'n siŵr y bydd eich hoff gymeriadau Cyw yno. Mae nifer o blant ardal Y *Tincer* yn cystadlu – pob lwc i bob un ohonoch, a da iawn chi os ydych chi wedi cael llwyddiant yn rhai o'r cystadlaethau gwaith cartref, yn sgwennu cerdd, stori, gwneud cywaith neu dynnu llun. Os ydych yn mynd i'r Eisteddfod gyda'ch teulu a'ch ffrindiau – mwynhewch!

Y mis hwn, lliwich lun o'r babell, gan ddefnyddio pob math o liwiau llachar. Tybed beth sy'n digwydd y tu mewn iddi? Bydd yna sawl un debyg i hon ym Moncath, dwi'n siŵr. Anfonwch eich gwaith at y cyfeiriad arferol, Tasg y Tincer, 46 Bryncastell, Bow Street, Ceredigion SY24 5DE erbyn Mehefin 1af. Ta ta tan toc!



Enw

Cyfeiriad

Ysgol

Rhif ffôn

Oed

M THOMAS

Plymwr Lleol

Penrhyn-coch

Gosod gwres canolog
Ystafelloedd ymolchi
Cawodydd
Pob math o waith plymio
ac hefyd gwaith nwy
Prisiau rhesymol

07968 728470
01970 820375

**JONATHAN
JAMES LEWIS**

**Saer Coed
Adeiladydd
01970 880652
07773442260**

**Bronllys
Capel Bangor
Aberystwyth**

**GOICHDY
LLANBADARN**

**CYTUNDEB GOICHI
GWASANAETH GOICHI
DUFET MAWR
CITS CHWARAEON**

**FFÔN: 01970 612459
MOB: 07967 235 687
GERAINT JAMES**

ISSN 0963-925X



9 770963 925009 >

Rhif 359 | MAI 2013